# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR ARCHWILIO** | | **AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 22 GORFFENNAF 2014 am 2.00 o'r gloch y prynhawn** | | **TUESDAY, 22 JULY, 2014 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes<br>01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-

**<u>Annibynnol / Independent</u>**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones.

**<u>Plaid Cymru / The Party of Wales</u>**

T Ll Hughes (Cadeirydd/Chair), John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Vaughan Hughes

**<u>Grwp Chwyldroad/Revolutionist Group</u>**

Jeff Evans

**<u>Heb Ymaelodi/Unaffiliated</u>**

R Ll Jones

**ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 10 EBRILL, 2014** (Tudalennau 1 - 12)

Bydd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau:

- 10ed Ebrill, 2014 (arbennig)
- 30ain Ebrill, 2014 (arbennig)
- 8ed Mai, 2014 (ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd)

3 **ADOLYGIAD O'R DATGANIAD O GYFRIFON 2013-14**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 Dros Dro. *(ADRODDIAD I DDILYN)*

4 **DIWEDDARIAD AR LYWODRAETHU A SICRWYDD A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2013-14**

Derbyn diweddariad ar lywodraethu a sicrwydd ynghyd â drafft cychwynnol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol am 2013/14. *(ADRODDIAD I DDILYN)*

5 **ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2013-14**

Cyflwyno Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2013-14.
*(ADRODDIAD I DDILYN)*

6 **RHEOLI TRYSORLYS CHWARTER 1 2014/15**

Cyflwyno diweddariad Rheoli Trysorlys Chwarter 1 2014/15.
*(ADRODDIAD I DDILYN))*

7 **RHEOLI RISG** (Tudalennau 13 - 14)

Derbyn diweddariad ynghylch rheoli risg.

8 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH BERFFORMIAD** (Tudalennau 15 - 56)

- Cyflwyno diweddariad ar y Rhaglen Waith Perfformiad.
- Cyflwyno Tystysgrif Cydymffurfio Cynllun Gwella 2014/15
- Cyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol 2014

9 **ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 57 - 68)

Cyflwyno adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol am Chwarter 1 2014/15.

10 **GWEITHWYR ASIANTAETH - ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU** (Tudalennau 69 - 74)

Cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â defnydd yr Awdurdod o staff asiantaeth.

11 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 75 - 76)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.

12 **CYTUNDEB AR GYFER RHEOLAETH Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Trefor Lloyd Hughes<br><br>Aelodau Lleyg: Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (JF)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (SW) (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 8)<br>Pennaeth Dros Dro Caffael (GD) (ar gyfer eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, Vaughan Hughes, Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas, H. Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd), Y Cynghorydd Kenneth Hughes (Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) (ar gyfer eitem 3), Mr Andy Bruce (SAC) Mr Patrick Green (Baker Tilly), Mr Joe Hargreaves (Rheolwr Archwilio Ariannol (PwC) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 2 Chwefror.

**3 UNED CYNNAL A CHADW BUSNES GWASANAETHAU TAI**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn i adolygu Uned Cynnal a Chadw Busnes y Gwasanaethau Tai.

Adroddodd y Gwasanaethau Tai fel a ganlyn –

- Roedd ail weithdy gyda staff wedi ei gynnal ac mae cyfarfodydd unigol gyda staff yn cynnwys Swyddogion Rheoli Perfformiad a Swyddogion Ariannol wedi eu cynnal gyda mewnbwn gan Adnoddau Dynol. Mae gwerthusiad opsiynau cynhwysfawr o ddyfodol gwasanaeth atgyweirio Gwasanaeth Tai wedi ei gynnal ac fe'i cwblhawyd yn Chwefror 2014. Roedd crynodeb o'r gwerthusiad opsiynau wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.
- Daeth y canlyniadau o'r ymarfer gwerthuso i'r casgliad ac argymhelliad y dylid cadw'r gwasanaeth yn fewnol, ond uno'r timau cleient a chontractwr i un gwasanaeth atgyweirio tra y byddai moderneiddio a thrawsnewid y gwasanaeth yn dod â'r manteision gorau posibl i'r gwasanaeth ar gost resymol.
- Roedd yr adroddiad drafft wedi ei dosbarthu i'r UDA ac i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 17 Ebrill ac wedi hynny i'r Pwyllgor Gwaith.
- Wrth argymell yr opsiwn hwn, roedd y Pennaeth Gwasanaethau Tai wedi nodi nifer o anghenion bydd yn rhaid eu cyflawni er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor a'i gydranddeiliaid y bydd lefelau gwasanaeth rhagorol yn cael ei gyflawni yn y dyfodol ac o fewn cyfnod amser

rhesymol.  Roedd y rhain wedi eu nodi yn adran 3 yr adroddiad ac ymhelaethwyd arnynt yn y cyfarfod gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

- Yn y cyfnod ers drafftio'r adroddiad a'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, roedd gwaith pellach wedi ei wneud i ddatblygu Cynllun Busnes ac Achos Busnes yn dangos sut y bydd y gwasanaeth yn sicrhau statws o ragoriaeth.
- Roedd y nodweddion allweddol a oedd yn sail i'r opsiwn a argymhellir i'w gweld yn rhan 2 yr adroddiad.

Ystyriodd yr Aelodau y wybodaeth a gyflwynwyd a nodwyd y pethau canlynol yn codi o'r adroddiad -

- Y dulliau ar gyfer cyflawni'r isafswm targed o £250k o arbedion blynyddol, ac a fyddai'r arbedion hynny yn rhai parhaol ac o dan ba benawdau y byddent yn cael eu cyflawni.
- Gofynnwyd a oedd ceisio ennill statws rhagoriaeth yn angenrheidiol pan mae darparu gwasanaeth da yn amcan sy'n cael ei dderbyn ac a fydd iddo oblygiadau cost.
- Y gyfran o holl gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw y mae'r £250k yn ei gynrychioli.
- Yr agwedd a gymerir gan awdurdodau eraill tuag at gynnal a chadw'r stoc dai cymdeithasol ac a oedd yna unrhyw gyfleon i ddysgu oddi wrth hynny.
- Yr angen i gynnal archwiliadau rheolaidd o'r stoc dai lle y gwnaed buddsoddiadau i sicrhau bod y stoc yn cael ei gynnal a'i gadw ac nad yw tenantiaid yn caniatáu i eiddo fynd â'u pen iddynt.  Awgrymwyd y dylid dweud wrth denantiaid am y costau i'r Cyngor pan nad yw eiddo yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai mewn ymateb y rhagwelir y bydd y swm o £250k yn cael ei arbed yn flynyddol yn ystod oes y Cynllun Busnes 3 blynedd ac y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn rhannol drwy gyflogi gweithwyr aml-sgilgar fydd yn gallu darparu lefel uchel o atgyweiriadau iawn y tro cyntaf ac yn rhannol trwy arbedion a gynhyrchir drwy'r broses gaffael.  Mae staff a rheolwyr y gwasanaeth yn awyddus i ddarparu gwasanaeth rhagorol fydd yn ei osod o fewn y chwartel uchaf a serch y bydd ffi asesu, ni fydd y dyhead hwn yn golygu costau i'r Cyngor. Dywedodd y Swyddog ei bod eisiau dangos bod y gwasanaeth wedi ei symud yn ei flaen.  Mae'r cyllideb flynyddol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw tai oddeutu £5m.  Y bwriad hefyd yw sefydlu cysylltiadau gydag awdurdodau yng Nghymru a Lloegr lle ceir tystiolaeth o arfer dda o ran cynnal a chadw tai cymdeithasol.  O safbwynt sicrhau bod eiddo'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda gan denantiaid, mae'r Cynllun Busnes yn darparu ar gyfer cyflogi Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.  Bydd swyddogion hefyd yn cynnal archwiliad blynyddol o dai'r Cyngor. Bwriedir ymhellach gyflwyno Polisi Gwaith Trwsio y Codir Amdano drwy'r broses ddemocrataidd ymhen ychydig a bydd hynny yn caniatáu i gostau atgyweirio gael eu hadennill gan y tenant lle mae hynny'n briodol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r broses a ddilynwyd i adolygu'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau'r Gwasanaeth Tai.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:  Pennaeth y Gwasanaethau Tai i gynnwys yn y Bwletin/ Llythyr Newyddion Tenantiaid wybodaeth ynglŷn â'r costau a gafodd y Cyngor oherwydd iddo orfod atgyweirio tai Cyngor nad oeddynt wedi cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.**

DRAFT

**4  ASESIAD CORFFORAETHOL**

Cafwyd cyflwyniad gweledol gan y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas a'r Asesiad Corfforaethol o Gyngor Sir Ynys Môn sydd i'w gynnal yn Chwefror 2015 fel rhan o raglen gylchol 4 blynedd Swyddfa Archwilio Cymru o asesiadau corfforaethol awdurdodau lleol.

Dygodd y Dirprwy Brif Weithredwr sylw at yr ystyriaethau canlynol  –

- Y ffactorau sy'n bwysig i ddarparu Asesiad Corfforaethol da.
- Pwrpas yr Asesiad Corfforaethol o ran darparu datganiad sefyllfa o gapasiti a gallu'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus a'r hyn y mae hynny'n ei olygu o ran archwilio hanes yr Awdurdod mewn perthynas â pherfformiad a chanlyniadau a'r trefniadau allweddol sydd eu hangen i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.
- Y deilliannau yng nghyswllt darparu sicrwydd bod y trefniadau sydd yn eu lle ar hyn o bryd yn yr awdurdod yn rhesymol ac yn gadarn.

- Y cwestiynau allweddol fydd yn cael eu gofyn ynglŷn â gallu'r Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau ac ar sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion yr Ynys, y cynnydd gyda chyflawni gwelliannau a gynlluniwyd; gweledigaeth a chyfeiriad strategol; trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd; rheolaeth o adnoddau ac effeithlonrwydd ei drefniadau cydweithio a phartneriaeth.
- Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r holl Benaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i drafod cwestiynau allweddol gyda golwg ar gael dealltwriaeth ynghylch ble y mae gwasanaethau'r Awdurdod ar hyn o bryd o ran y meysydd y bydd yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio arnynt ac i weld ym mhle ac ym mha fodd y mae angen gyrru perfformiad.
- Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.
- Y trefniadau a'r strwythur llywodraethu yn cynnwys noddwr prosiect a swyddog cyfrifol.
- Trefniadau cyfathrebu â staff, partneriaid ac Aelodau Etholedig a'r amserlen fydd yn arwain at yr asesiad corfforaethol.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y wybodaeth a cheisiwyd cael sicrwydd bod fframwaith yn ei le i sicrhau bod yr hyn sydd angen ei wneud o ran y gwaith paratoadol yn cael ei wneud fel a gynlluniwyd, ac ar amser. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod tri maes creiddiol o waith o amgylch diffinio a mireinio'r model hunanasesu er mwyn sicrhau ei fod yn gadarn, rheoli prosiect yng nghyswllt dynodi pwy sy'n gwneud beth a phryd a pharatoadau mewn perthynas â chyfathrebu fel bod pawb yn gwybod beth yw'r amcanion. Fel Swyddog cyfrifol byddai'n gweithio i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud; bod momentwm yn cael ei sefydlu a'i gadw a bod y cynnydd yn cael ei wneud fel a ragamcanwyd.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Dirprwy Brif Weithredwr i gadw'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi'u briffio ar gynnydd ar reoli'r paratoadau ar gyfer yr asesiad corfforaethol.**

**5 GWAITH GWIRIO FFITRWYDD CAFFAEL**

Cyflwynwyd er gwybodaeth y Pwyllgor - crynodeb crynhoi ar adolygiad ffitrwydd KPMG o drefniadau caffael Cyngor Sir Ynys Môn.

Dywedodd y Pennaeth Caffael Dros Dro wrth y Pwyllgor bod KPMG wedi'i gomisiynu i gynnal adroddiadau ffitrwydd ar drefniadau caffael yr holl Awdurdodau yng Nghymru yn dilyn adolygiad a gomisiynwyd gan Weinidog Cyllid Llywodraeth Cymru i sicrhau fod Polisi Caffael Cymru yn cael y effaith fwyaf bodib. Roedd yr adolygiad wedi argymell y dylid ailgyflwyno asesiadau gallu ac roedd y Gweinidog wedyn wedi cadarnhau y byddent yn cael eu hailgyflwyno. Amcan y gwaith gan KPMG oedd penderfynu a oedd gallu caffael sefydliadol yn ddigonol a hefyd i alluogi sefydliadau i nodi eu cryfderau a meysydd ar gyfer eu gwella. Eglurodd y Swyddog beth fyddai'r fethodoleg fyddai'n cael ei mabwysiadu i gynnal yr adolygiad a chadarnhaodd bod y camau gwella a argymhellwyd i'r Awdurdod yn cydnabod y gweithgareddau sydd eisoes ar droed a rhai a gynlluniwyd ac sydd wedi eu bwriadu i gefnogi'r gweithgareddau hynny a darparu cyngor ymarferol i gefnogi'r gwelliannau hynny.

Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor Archwilio sylwadau i'r perwyl y byddent wedi hoffi cael gweld mwy o fanylion o adroddiad KPMG o ran yr agweddau a archwiliwyd a'r canfyddiadau, o ystyried bod caffael yn faes o ddiddordeb i'r Pwyllgor ac yn un oedd wedi ei nodi fel un oedd angen ei gryfhau.

Ymhelaethodd y Pennaeth Caffael Dros Dro ar brif gasgliadau adroddiad KPMG o dan bob un o'r penawdau a adolygwyd a'r camau oedd yn cael eu hargymell ynghyd â sylwadau eglurhaol a wnaed ynglyn â'r statws cyfredol a'r cyd-destun. Dywedodd y Swyddog bod gwendidau wedi eu hamlygu mewn nifer o feysydd a bod yr adroddiad yn gyffredinol yn dod i'r casgliad y bydd y manteision o weithredu'r argymhellion ynghyd â'r rhai yn adroddiad Archwilio Mewnol Rhagfyr 2012 yn golygu y bydd gan yr Awdurdod agwedd gyson ac un fydd yn cydymffurfio tuag at gaffael i'r sefydliad ac y bydd yn gweithredu fel sylfaen lle y gellir gwneud gwelliannau i'r dyfodol ac arbedion o ran cost. Pwysleisiodd y Pennaeth Caffael Dros Dro ei fod wedi trafod y mater o gaffael gyda phob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth a'u bod wedi bod yn rhagweithiol yn ceisio atebion i gywiro'r diffygion. Cadarnhaodd bod y Penaethiaid Gwasanaeth yn hollol gefnogol i'r camau sydd i'w cymryd. Roedd y strategaeth gaffael wedi ei drafftio hefyd a bydd yn cael ei



DRAFT

chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac y mae rheolau gweithdrefn contract newydd yn cael sylw gan yr Adain Gyfreithiol a bydd hyn i gyd yn ychwanegu at y manteision.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod yr adolygiad yn darparu cyfle i roi system gaffael yn ei lle fydd yn bodloni anghenion yr Awdurdod ac a fydd yn cynhyrchu arbedion.

Roedd yr Aelodau yn gytûn bod angen cyfarfod arall o'r Pwyllgor er mwyn iddynt allu ystyried argymhellion adolygiad KPMG mewn mwy o fanylder a hefyd y camau oedd wedi eu cynllunio i'w gweithredu a phenderfynwyd ailgyfarfod i'r pwrpas hwnnw cyn diwedd mis Ebrill gyda gwahoddiad i fynychu i'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Bod y Pwyllgor yn ailymgynnull cyn diwedd mis Ebrill i ystyried argymhellion adolygiad KPMG ymhellach yng nghyswllt trefniadau caffael a'r ymateb iddynt.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI :**

- **Swyddog Pwyllgor i gadarnhau trefniadau ar gyfer cyfarfod pellach mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd.**
- **Pennaeth Caffael Dros Dro i baratoi cyflwyniad i'r cyfarfod yn gosod allan y materion a amlygwyd yn adolygiad KPMG a'r camau gweithredu a argymhellir / sydd eu hangen i fynd i'r afael â hwy.**

**6 ADOLYGIAD GWASANAETHAU TGCH**

Cafodd y mater ei ohirio.

**7 SYSTEM LEDJER CIVICA**

Cafodd y mater ei ohirio.

**8 RHEOLI RISG AC YSWIRIANT**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt rheoli risg a hawliadau yswiriant. Roedd yr adroddiad yn rhestru pedair prif risg yr Awdurdod yn ogystal â thair o risgiau newydd oedd wedi eu nodi ac a ystyrir fel rhai lefel ganolog. Roedd y sefyllfa yswiriant yn adlewyrchu cynnydd sylweddol yn nifer yr hawliadau eiddo yn ystod 2013/14 sydd i'w briodoli i stormydd gaeaf 2013/14.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio am amlygu'r materion canlynol yn yr adroddiad -

- Bod risg YM40 a ddynodwyd fel methiant i gydymffurfio â deddfwriaeth RhGC mewnol a chaffael yn arbediad yn ogystal â mater cydymffurfiaeth i'r graddau bod methiant yn hyn o beth yn golygu nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod hynny felly'n cael effaith ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau eraill neu beidio.
- Roedd pryder bod y risgiau uchaf yn parhau heb newid a bod hynny felly yn nodi nad yw camau adfer yn cael yr effaith a ddymunir o rhan lleihau'r risgiau hynny. Cyfeiriwyd yn arbennig at gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.
- Dywedwyd y byddai o gymorth i Aelodau pe bai'r dull o adrodd yn ôl yn cynnwys mwy o naratif / gwybodaeth gyd-destunol yn arbennig mewn perthynas â symudiadau risg.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi buddsoddi mewn hyfforddiant a'r anghenion Diogelu Data a'i fod wedi sefydlu Rhaglen Waith Diogelu Data cynhwysfawr ond bod i'r camau hyn oblygiadau cost. Un o'r risgiau uchaf o hyd yw methiant i gynllunio ar gyfer gostyngiad sylweddol mewn cyllid o 2015/16 ac yn y cyd-destun hwn, rhaid i'r Awdurdod flaenoriaethu ei adnoddau yn ariannol ac o ran staff a chanolbwyntio ar ei risgiau lefel uchaf. Mae rhai o'r risgiau a nodwyd yn gyffredin i awdurdodau eraill hefyd. Mae'r her o roi sylw i risgiau mewn rhai meysydd yn un fawr iawn ac ni chaiff ei ddatrys dros nos. Fodd bynnag, rhaid i'r Awdurdod fonitro a sicrhau ei fod yn cadw at y targedau.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolydd Yswiriant a Risg i gynnwys yn yr adroddiad wybodaeth gefnogol/esboniadol lle bu symudiad o ran risg.**

**9 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A'R TREFNIADAU GWRTH-DWYLL**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried ac er gwybodaeth - Adroddiad gan y Rheolwr Archwilio a oedd yn disgrifio'r allbynnau o weithdy blynyddol Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 28 Ionawr i adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor a'r trefniadau gwrth-dwyll ar gyfer 2013/14. Roedd canlyniadau manwl hunanasesiad y Gweithdy o Arfer Dda Archwilio ar ffurf Rhestr Wirio Hunan Asesiad o Arfer Dda CIPFA wedi ei chynnwys yn Atodiad A yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio bod hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio o'i berfformiad yn erbyn arfer orau yn gadarnhaol ar y cyfan gyda dim ond 3 allan o'r 20 o arferion gwerth gorau heb eu cyflawni gan y Pwyllgor a gyda 8 arall o 20 lle teimlwyd y gellid gwneud gwelliant. Nodwyd y prif feysydd lle yr oedd gwendidau yn rhan 2.2 yr adroddiad. Roedd y Rheolwr Archwilio hefyd wedi cwblhau'r rhestr wirio er mwyn nodi meysydd lle yr oedd y Pwyllgor, yn ei farn ef, yn gryf, a'r meysydd hynny y gellid gwella arnynt. Roedd y rhestr wirio a gwblhawyd gan y Rheolwr Archwilio ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad ac roedd y meysydd a nodwyd gan y Swyddog fel rhai y gallai'r Pwyllgor ystyried eu gwella wedi eu rhestru yn rhan 2.5 yr adroddiad. Yn ychwanegol at hyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried prif ganfyddiadau Adroddiad Gwrth-dwyll yr Archwiliwr Mewnol 1906.13/14 a oedd yn seiliedig ar restr wirio Atodiad 2 y Comisiwn Archwilio - Diogelu'r Pwrs Cyhoeddus. Yn yr adroddiad, nodwyd nifer o feysydd lle yr oedd y trefniadau gwrth-dwyll yn wan ar hyn o bryd fel y cawsant eu nodi yn y Crynodeb Gweithredol i adroddiad yr Archwiliwr Mewnol sydd yn Atodiad C.

Cododd yr Aelodau fater hyd rhaglenni'r Pwyllgor Archwilio ac a oedd yr amserlen gyfredol o gyfarfodydd yn ddigonol i drafod yr holl faterion sydd angen sylw. Dywedodd y Rheolwr Archwilio y byddai'n cynnwys y mater hwn yn y Cynllun Gweithredu arfaethedig fel sail ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol.

**Penderfynwyd cymeradwyo -**

- **Datblygu Cynllun Gweithredu Effeithiolrwydd a nodi meysydd gwella ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a sut i roi sylw i'r rhain yn 2014/15.**
- **Datblygu Cynllun Gweithredu trefniadau Gwrth-dwyll yn nodi'r gwendidau yn y trefniadau gwrth-dwyll a sut i fynd i'r afael â'r rhain yn 2014/15.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**10 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Archwilio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2013/14 er sylw'r Aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Mai.**

**11 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2013/15 er gwybodaeth y Pwyllgor. Yn yr adroddiad, nodwyd y gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn ar ffurf 51 o adolygiadau; perfformiad yn erbyn y targedau mewnol ar gyfer y flwyddyn; y casgliad cyffredinol ar gyfer y meysydd a archwiliwyd a'r hyn y mae hynny'n ei adlewyrchu o ran risg i'r Awdurdod yn ogystal â'r meysydd a nodwyd lle mae gwendidau rheoli sylweddol.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio mewnol am 2013/14 a nodi ei gynnwys.**

**12 CYNLLUN STRATEGOL A CHYNLLUN CYFNODOL ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn cynnwys y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol am 2014/15 a'r Cynllun Cyfnodol 2014/15. Yn yr adroddiad, cafwyd amlinelliad

o’r broses asesu anghenion archwilio y mae’r dull archwilio yn seiliedig arno ynghyd â materion yn ymwneud ag adnoddau ac ystyriaethau perthnasol.

Gofynnodd Aelodau’r Pwyllgor am sicrwydd ynghylch a oes digon o staff yn y Tîm Archwilio Mewnol i’w alluogi i gyflawni’r rhaglen a bennwyd ar gyfer y gwasanaeth o ystyried y problemau gydag absenoldeb salwch. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio ei fod ef o’r farn y bydd modd i’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, gyda staff llawn, gyflawni’r Cynllun Gweithredu Archwilio ar gyfer y flwyddyn. Oherwydd yr ystyriaethau o safbwynt absenoldeb salwch a chan Ddibynnu ar ba mor gyflym y gellir sicrhau staff ar gyfer pob swydd, efallai y bydd raid i’r gwasanaeth adolygu meysydd gweithgaredd.

Mewn ymateb i awgrymiad a wnaed ynglŷn â’r posibilrwydd o gyflwyno achos ar gyfer cael cefnogaeth ychwanegol i’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, dywedodd Mr Patrick Green y gall y Pwyllgor, oherwydd bod y Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd i’r Pwyllgor yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu, ar unrhyw bwynt yn y flwyddyn a chan ddibynnu ar yr amgylchiadau, ystyried gwneud argymhelliad mewn perthynas â chefnogaeth ychwanegol yn seiliedig ar yr hyn y mae’r Rheolwr Archwilio Mewnol yn ei ddweud am yr hyn y mae diffyg staff yn ei olygu i’r gwasanaeth yn ymarferol.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol am 2014/15 fel un sy’n adlewyrchu’r meysydd y mae’r Pwyllgor o’r farn y dylid eu cynnwys.**
- **Derbyn bod y lefel o adnoddau archwilio yn briodol ar gyfer y lefel sicrwydd sydd ei hangen ar yr amod y ceir diweddariad rheolaidd gan y Rheolwr Archwilio Mewnol ynghylch digonolrwydd yr adnoddau staff Archwilio Mewnol.**

**CAMAU GWEITHREDU’N CODI: Y Rheolwr Archwilio Mewnol i roi gwybod i’r Pwyllgor am unrhyw effaith y mae diffyg staff yn ei gael ar allu’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gyflawni’r Cynllun Gweithredu.**

**13 ARCHWILIO ALLANOL**

13.1 Cyflwynwyd er sylw’r Pwyllgor - Amlinelliad Archwilio Ariannol Blynyddol yr Archwilwyr Allanol yn nodi’r modd yr aethpwyd ati i gynnal archwiliad ariannol 2013/14 a’r canlyniadau disgwyliedig.

Roedd Mr Joe Hargreaves, Rheolwr Archwiliol Ariannol PwC grynodeb o’r prif ystyriaethau yn yr adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at yr agweddau a ganlyn -

- Y risgiau sylweddol ynglŷn â’r amgylchedd rheoli ynghyd â’r risgiau cynyddol mewn perthynas â datganiadau ariannol fel y nodir hynny yn atodiad 3 a’r ymatebion arfaethedig.
- Y risgiau ychwanegol a nodwyd mewn perthynas â’r broses o baratoi’r cyfrifon a gweithrediad y system ledjer gyffredinol newydd.
- Oherwydd gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, bu’n rhaid adolygu’r dull o bennu ffioedd yn y modd ac am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. Bu gwybodaeth ynghylch canllawiau newydd Swyddfa Archwilio Cymru ar werthu a phennu ffioedd yn cael ei chyflwyno unwaith y bydd wedi ei chwblhau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar rai pwyntiau mewn perthynas â’r trothwy ar gyfer cam-ddatgan a gofynnwyd hefyd am sicrwydd na fyddai’r mater ynghylch atebolrwydd pensiynau a digonolrwydd a chywirdeb gwybodaeth a data ynghylch gweithwyr a ddarparwyd i gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd yn digwydd eto eleni. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Swyddogion y Gwasanaeth Cyllid yn gweithio i ddarparu cynllun pensiwn Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth gyfredol yn unol â’r amserlen fandadol.

**Penderfynwyd nodi’r wybodaeth.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**



DRAFT

13.2 Cyflwynwyd a nodwyd gan y Pwyllgor - wybodaeth gan yr Archwilwyr Mewnol ynghylch twyll, annibyniaeth ac ansawdd.

Dywedodd Mr Joe Hargreaves, PwC bod cyfrifoldeb ar yr Archwiliwr Allanol i gyflwyno'r datganiad ac y byddai'n falch o dderbyn sylwadau'r Aelodau ynghylch twyll ar lafar yn y cyfarfodydd neu wedi hynny ar e-bost.

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

13.3 Rhoes Mr Andy Bruce, SAC ddiweddariad i'r Pwyllgor ar statws y Rhaglen Gwaith Perfformiad. Nodwyd y wybodaeth gan y Pwyllgor.

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 14 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi adolygu gweithrediad y system Aelodau Cyfetholedig/Aelodau Lleyg a'i fod wedi gwneud newidiadau i'r trefniadau cydnabyddiaeth ariannol er mwyn adlewyrchu'r amser a dreulir gan Aelodau Lleyg a Chyfetholedig yn paratoi ar gyfer cyfarfodydd ac yn teithio iddynt yn ychwanegol at eu presenoldeb yn y cyfarfodydd hynny. Mae'r Panel wedi gofyn fod swyddog priodol yn yr Awdurdod yn gwneud y penderfyniad ynghylch beth ddylai hynny fod yn achos y Pwyllgor Archwilio. Mae'r ffi a hyn o bryd yn £198 am ddiwrnod a £99 am hanner diwrnod (hyd at 4 awr). Yn achos yr holl bwyllgorau hynny y mae Aelodau Lleyg Cyfetholedig yn gwasanaethu arnynt gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio, yr amser y maent yn eu treulio ar baratoi, teithio a mynychu cyfarfodydd dros 4 awr, cytunwyd y bydd modd iddynt hawlio am ddiwrnod llawn yn unol â chanllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac y daw'r trefniant hwn i rym o 1 Ionawr 2014.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 15 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Nid ystyriwyd y mater.

## 16 CONTRACT RHEOLI'R GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

Nid ystyriwyd y mater.

## 17 CYFARFODYDD 2014/15

Cyflwynwyd a nodwyd dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio am y flwyddyn ddinesig 2014/15.

**Y Cynghorydd R.Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 30 Ebrill, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, John Griffith, Raymond Jones, Richard Owain Jones<br><br>Aelodau Lleyg : Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Dros Dro Caffael<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, Dafydd Rhys Thomas. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 GWAITH GWIRIO FFITRWYDD CAFFAEL AR GYFER YNYS MÔN GAN KPMG**

Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 10 Ebrill, rhoddodd y Pennaeth Dros Dro Caffael gyflwyniad i'r Pwyllgor ar brif ganfyddiadau gwaith gwirio ffitrwydd caffael ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn gan KPMG ynghyd â chamau gweithredu oedd wedi eu cynllunio ar gyfer gwella'r meysydd lle'r oedd diffygion wedi eu nodi fel rhan o raglen gynhwysfawr ar gyfer gwella caffael.

*(Roedd adroddiad KPMG ar gael i Aelodau'r Pwyllgor fel dogfennau cefndirol)*

Ymhelaethodd y Pennaeth Dros Dro Caffael ar y materion canlynol fel rhan o'r cyflwyniad:

- Y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan KPMG i gynnal y gwaith gwirio ffitrwydd sydd yn fodel asesu aeddfedrwydd caffael safonol a ddefnyddir ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i werthuso effeithlonrwydd. Roedd yr agwedd yn cynnwys holiadur ar lein y gofynnwyd i staff perthnasol ei gwblhau ac roedd KPMG wedi paratoi asesiad cychwynnol yn seiliedig ar yr holiaduron o allu caffael yr awdurdod yn unol â model aeddfedrwydd Llywodraeth Cymru. Cafodd yr asesiad wedyn ei brofi a'i gymedroli mewn cyfweliadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ar safle'r Awdurdod gyda rheolwyr caffael allweddol a chydranddeiliaid ar draws yr Awdurdod.
- Roedd hyd a lled y pethau a aseswyd yn cynnwys y canlynol a rhoddwyd graddfa aeddfedrwydd i Gyngor Sir Ynys Môn ar raddfa yn ymestyn o fethu â chydymffurfio fel y raddfa isaf i lefel uwch fel y raddfa uchaf, gyda pherfformiad ar gyfer pob mesur yn cael ei feincnodi yn erbyn nifer gyfartaleddog o awdurdodau Cymru a meincnod sector cyhoeddus y DU.

    - Arweinyddiaeth a llywodraethiant caffael
    - Strategaeth ac amcanion caffael
    - Diffinio'r angen cyflenwi
    - Strategaethau nwyddau/prosiectau a chaffael at y cyd
    - Rheoli contractau a chyflenwyr
    - Prosesau a systemau pwrcasu allweddol
    - Pobl
    - Rheoli perfformiad

- Crynodeb o’r camau yr oedd KPMG yn eu hargymell yn erbyn pob dimensiwn o’r model.
- Trosolwg manwl KPMG o’r canlyniadau yn ôl dimensiwn yn cynnwys sylwadau eglurhaol i gefnogi’r canfyddiadau a’r cyfleon ar gyfer gwella.
- Rhaglen yr Awdurdod ar gyfer gwella caffael a’r agweddau o asesiad KPMG y bydd y rhaglen yn rhoi sylw iddynt a sut.
- Y gallu i greu arbedion o ran y gwariant y gellir dylanwadu arno; amcangyfrif o’r arbedion cyffredinol a’r dulliau o ddarparu’r rhain drwy’r rhaglen i wella caffael yn cynnwys nodi arbedion effeithlonrwydd o £2m i £4m dros gyfnod o ddwy flynedd gyda buddsoddiad o £98k yn y swyddogaeth gaffael.
- Esiampl o broffil o’r gwariant cyfredol yn ôl categori am wasanaethau cynnal a chadw cyffredinol a’r posibilrwydd ar gyfer creu arbedion (yn amodol ar wneud dadansoddiad manwl) o dan y pennawd hwn y gallai agwedd fwy systematig ei sicrhau yn cynnwys camau all arwain at ‘enillion sydyn’ ar unwaith.
- Arbedion caffael allweddol mewn meysydd ar draws y Cyngor a’r arbedion tebygol i’w sicrhau.

Dilynwyd hyn gyda sesiwn o gwestiynau ac atebion lle rhoddwyd cyfle i’r Aelodau gael gwybodaeth eglurhaol am rai meysydd nad oeddent yn glir yn eu cylch neu eglurhad manylach ynghylch sut y byddid yn rhoi sylw i agweddau arbennig yn cynnwys y canlynol -

- Methodoleg a chadernid yr arfarniad
- Gwahaniaethau yn yr ymagwedd sylfaenol tuag at gaffael yn y sectorau preifat a chyhoeddus a sut y gallai’r anghenion am gynhwysedd, tryloywder a thegwch yn y drefn gyhoeddus ei gwneud yn broses fwy cymhleth.
- Diffyg buddsoddiad yn hanesyddol ym maes caffael fel ffactor oedd yn cyfrannu at ddiffyg aeddfedrwydd y swyddogaeth o fewn yr Awdurdod.
- Uwch sgilio staff allweddol fel rhan hanfodol o raglen wella. Awgrymwyd y dylai’r cynllun gwella nodi’r staff perthnasol a’r amserlen ar gyfer gweithredu hyn.
- Awgrymwyd y dylid defnyddio adnoddau hapddigwyddiad o fewn y gyllideb gorfforaethol i gefnogi’r rhaglen wella.
- Awgrymwyd y dylai’r gwaith o ddatblygu’r swyddogaeth gaffael a gweithredu ar adroddiad KPMG gael ei fonitro gan yr UDA. Dywedodd y Prif Weithredwr fod caffael yn faes risg a bydd yn cael ei gynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac fe fydd felly’n cael ei dracio a’i fonitro.
- Y camau sydd angen eu cymryd ar unwaith i gael “enillion sydyn”.
- Sut y gall mabwysiadu agwedd fwy cynlluniedig tuag at gaffael leihau’r angen i wneud toriadau mewn ffordd dameidiog trwy alluogi i’r Awdurdod ganolbwyntio ar feysydd o wariant a gostwng y gwariant drwy broses fwriadol.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y bydd yn rhaid i’r buddsoddiad £98k a fwriedir yn y Swyddogaeth Gaffael ar sail gwario i arbed gael ei gefnogi gan Achos Busnes fydd yn nodi’r rhesymeg dros wariant ychwanegol yn erbyn yr arbedion sydd i’w gwneud, a chael ei gymeradwyo wedi hynny gan y Pwyllgor Gwaith. Cadarnhaodd y Pennaeth Caffael Dros Dro bod yr Achos Busnes yn y broses o gael ei ffurfio.

Roedd Aelodau’r Pwyllgor Archwilio yn cydnabod y byddent yn gallu monitro statws caffael o fewn yr Awdurdod drwy’r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac roeddent am nodi eu bod yn dymuno cael eu diweddaru’n barhaus ynglŷn â’r arbedion fyddai’n cael eu gwneud. Dywedodd y Pennaeth Dros Dro Caffael y bydd y Model Gwireddu Manteision arfaethedig yn dangos y meysydd oedd dan sylw a’r arbedion a gynhyrchir.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a chydnabod y cyfraniad a wnaed gan y Pennaeth Dros Dro Caffael.**

**CAMAU GWEITHREDU’N CODI: Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i roi diweddariad i’r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd ar y cynnydd gyda gwneud arbedion yn gysylltiedig â datblygu a gwella trefniadau caffael corfforaethol.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)**

DRAFT

# PWYLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Jim Evans, Jeff Evans, John Griffith, Trefor Lloyd Hughes, R.O.Jones, Vaughan Hughes. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr R.Llewelyn Jones a D.Rhys Thomas, Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes (Aelodau Lleyg) |

---

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd John Griffith yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**Cynghorydd Vaughan Hughes**
**(fel Cadeirydd y Cyngor)**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **22 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **RHEOLI RISG** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR RISG AC YSWIRIANT** |
| **GWEITHREDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Fe gymeradwywyd Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor a'r Canllawiau Rheoli Risg gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref 2012.

**1.2** Mae'r dogfennau hyn yn galw ar y Pwyllgor Archwilio i adolygu'r Fframwaith Rheoli Risg ac adolygu a herio'r risgiau corfforaethol uchaf.

## 2. GWEITHREDU RHEOLI RISG

**2.1** Oherwydd yr anawsterau gyda rheoli risg yn cael ei ymgorffori ar draws y Cyngor, mae cwmni allanol wedi ei gyflogi i adolygu o'r trefniadau presennol.

**2.2** Bydd yr adolgyiad yn cychwyn ym Medi 2014 a bydd yn cynnwys: -

i. Adolygu'r Strategaeth a Canllawiau Rheoli Risg presennol a chynnig gwelliannau;
ii. Ymgysylltu gydag Aelodau, Rheolwyr a Gwasanaethau i wella eu dealltwriaeth ac ymagwedd at reoli risg;
iii. Adolygu'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth cyfredol, cynorthwyo i nodi bylchau yn y risgiau a nodwyd, ac awgrymu dull ar gyfer sicrhau cysondeb yn yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio risgiau a'r sgorio tebygolrwydd ac effaith;
iv. Adolygu'r trefniadau ar gyfer symud risgiau Gwasanaeth, Prosiect a'r Bartneriaeth i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, argymell gwelliannau i'r trefniadau hyn;
v. Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a chynorthwyo i nodi bylchau yn y risgiau a nodwyd.

**2.3** Rhagwelir y bydd yr adolygiad hwn yn caniatáu i rheoli risg gael ei hymgorffori'n llawn a'u halinio ag arferion gweithio eraill.

**2.4** Mae cost yr adolygiad yn cael ei ariannu o'r gyllideb rheoli risg bresennol.

**2.5** Yn y cyfamser, mae’r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn parhau i gefnogi Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Gwasanaeth.

## 3. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

**3.1** Adolygwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol gan Y Pennaethiaid a’r UDA ym mis Mehefin 2014 ac mae risgiau uchaf y Cyngor wedi eu hadnabod fel:-

YM34 Methu â dod i gytundeb mewn perthynas â hawliadau cyflog cyfartal a gyflwynwyd hyd yma
YM31 Risg o beidio bod yn cydymffurfiol â deddfwriaeth Diogelu Data
YM44 Diffyg capasiti i ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd mewn meysydd allweddol
YM46 Methu cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol gyda gweithwyr
YM47 Ddim yn cael digon o gyllideb i dalu am ymrwymiadau presennol
YM49 Methiant i gasglu incwm / arian dyledus yn effeithiol neu o gwbl

**3.2** Mae’r risg sy'n gysylltiedig â'r hawliadau cyflog cyfartal wedi cael ei symud i fynu oherwydd y nifer, amser uwch reolwyr a’r gost sy'n gysylltiedig â’r hawliadau hyn.

**3.3** Disgwylir y bydd lefel y risg sy'n gysylltiedig â llywodraethu gwybodaeth yn gostwng unwaith y bydd y ffrydiau gwaith prosiect Llywodraethu Gwybodaeth yn cael eu cwblhau a'u hymgorffori mewn arferion gwaith.

**3.4** Mae'r risgiau uchel sy'n weddill yn risgiau sydd wedi eu hadnabod o’r newydd a byddent yn cael eu craffu yn fanylach yn yr wythnosau nesaf.

**3.5** Yn dilyn gwaith i liniaru risgiau, nid yw’r risgiau canlynol bellach yn yn cael eu hystyried yn risgiau uchel: -

YM08 Methu â chynllunio ar gyfer gostyngiad sylweddol mewn cyllideb o 2015/2016
YM33 Methu â darparu gwasnaethau o fewn y gyllideb a ddarperir
YM36 Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd

Mae'r risgiau hyn i gyd bellach yn cael eu hystyried yn risgiau canolig i allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.

## 4. ARGYMHELLION

**4.1** Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**JULIE JONES**
**RHEOLWR RISG AC YSWIRIANT** **15 GORFFENNAF 2014**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Diweddariad ar y rhaglen waith perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio 22 Gorffennaf 2014

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Archwiliad o'r Cynllun Gwella

Archwiliad o waith cyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella. Mae hwn yn disodli'r Llythyr Asesu Gwelliant 1 (IAL1).

Amseru – Gwaith wedi'i gwblhau a thystysgrif wedi'i dyfarnu i'r Cyngor ym mis Mehefin 2014.

### Archwiliad Asesu Perfformiad

Archwiliad o waith cyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. Mae hwn yn disodli'r Llythyr Asesu Gwelliant 2 (IAL2).

Amseru – Wedi'i gynllunio ar gyfer Tachwedd 2014.

### Asesiad Corfforaethol

Mae ail flwyddyn y cylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol yn dechrau yn 2014. Y bwriad yw cynnal asesiad corfforaethol Ynys Môn yn ystod Gaeaf 2014-15 a bydd yn adolygu gallu a galluogrwydd y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd yr asesiad corfforaethol yn disodli'r angen am Adroddiad Gwella Blynyddol yn 2015.

Amseru – Chwefror 2015.

### Adolygiad o'r Sefyllfa Ariannol

Gwaith ar y sefyllfa ariannol yn canolbwyntio ar iechyd ariannol, effeithiolrwydd trefniadau pennu cyllidebau, systemau llywodraethu ariannol/llwyddiant wrth sicrhau'r arbedion gofynnol.

Amseru – Mai i Awst 2014.

Crynodeb cenedlaethol – Bydd yr astudiaeth hon yn crynhoi gwaith lleol ar sefyllfa ariannol cynghorau ac yn rhoi darlun o gydnerthedd ariannol ledled Cymru. Disgwylir ei gwblhau erbyn Tachwedd 2014.

### Adolygiad Llywodraethu

Adolygiad lleol o effeithiolrwydd trefniadau craffu a Bwrdd y Rhaglen. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at yr asesiad corfforaethol.

Amseru – Gorffennaf i Hydref 2014.

## Adolygiad rheoli perfformiad

Adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau'r Cyd-fwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd.

Amseru – Gorffennaf i Medi 2014.

## Astudiaethau Llywodraeth Leol

**Gwaith cydlynol i fynd i'r afael â'r galw ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Annibyniaeth ar gyfer Pobl Hŷn**

Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar gefnogi pobl hŷn i gadw'u hannibyniaeth y tu allan i'r system iechyd a gofal drwy asesu pa mor effeithiol yw gwasanaethau ategol wrth eu helpu i fyw'n annibynnol.

Amseru – I'w gadarnhau.

**Cyflawni gyda llai – Gwasanaethau Hamdden**

Bydd yr astudiaeth hon yn olrhain lefelau buddsoddiad mewn gwasanaethau hamdden dros y blynyddoedd diwethaf gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd ar gyfer astudiaeth cyflawni gyda llai 2013-14 ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd.

Amseru – I'w gadarnhau.

## Astudiaethau Llywodraeth Leol Blaenorol 2013-14

**Cyflawni gyda llai – effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a dinasyddion**

Mae'r astudiaeth wedi'i chwblhau ac mae'r adroddiad yn cael ei baratoi.

**Diwygiadau lles**

Mae'r astudiaeth wedi'i chwblhau ac ni fydd unrhyw allbwn penodol lleol yn deillio o'r gwaith hwn, dim ond un adroddiad cenedlaethol.

**Diogelu**

Mae'r astudiaeth wedi'i chwblhau a phrif allbynnau'r gwaith fydd adroddiad cenedlaethol a chrynodeb lleol byr yn rhoi prif ganfyddiadau'r gwaith maes hwn.

# Gwaith penodol i Ynys Môn

| Adolygiad lleol |
| --- |
| **Cyllid**<br>Adolygiad lleol o adnoddau rheoli ariannol. Bydd elfen allweddol o'n Hasesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau ariannol. Fodd bynnag, mae'r dyddiadau rydym yn bwriadu cynnal ein Hasesiad Corfforaethol yn golygu y bydd hi'n rhy hwyr i'r canlyniadau ddylanwadu ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer 2015-16. Felly mae'r Cyngor wedi cytuno y dylem adolygu pa mor gadarn yw ei drefniadau rheoli ariannol yn gynnar yn 2014-15.<br><br>Amseru – Gorffennaf i Awst 2014. |

This page is intentionally left blank

# Tystysgrif Cydymffurfio

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Ynys Môn

## Tystysgrif

Rwyf yn ardystio fy mod i wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) y Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau o ran y canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn bodloni unrhyw safon o ran perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac yn gyfrifol am y wybodaeth a geir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a eglurir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

DRAFT

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw'r wybodaeth, nac ynghylch a oes modd cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau a bennir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Nid yw'r gwaith yr wyf i wedi'i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y gellir dibynnu'n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella.

### Argymhellion dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Dim argymhellion.

**HUW VAUGHAN THOMAS**


**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Huw Lloyd Jones, Rheolwr

Andy Bruce, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

DRAFT



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ynys Môn

Cyhoeddwyd: Mehefin 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 323A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones ac Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Gwnaeth y Cyngor gynnydd cyson o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai gwasanaethau allweddol 8

Mae gweithdrefnau mwy trylwyr a chyson a datblygu trefniadau llywodraethu wedi cryfhau gallu'r Cyngor i werthuso a gwella gwasanaethau 15

Os cânt eu cyflawni'n effeithiol, dylai cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau ei helpu i ymateb i'r heriau ariannol a'r heriau eraill sydd i ddod 20

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 27

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 28

Atodiad 2
Gwybodaeth Ddefnyddiol am Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn 29

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 31

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn 34

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ac ar waith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, ei waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 a, chan ystyried y rhain, casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2. Canfuwyd bod y Cyngor yn gwneud cynnydd cyson o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai gwasanaethau allweddol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae perfformiad ar draws amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor yn gwella, ond mae lle i wneud rhagor o gynnydd;
- mae gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed wedi gwella, ond mae risgiau o hyd o ran darparu gofal cymdeithasol;
- mae'r Cyngor yn ymateb yn dda i ganfyddiadau arolygiad Estyn yn 2012 ac mae perfformiad ysgolion yn Ynys Môn wedi gwella;
- mae'r Cyngor yn gwneud peth cynnydd i wella ei wasanaeth atgyweirio tai drwy foderneiddio a thrawsnewid y gwasanaeth;
- mae peth cynnydd wedi'i wneud o ran rheoli diogelwch data ac asedau gwybodaeth, ond mae mwy i'w wneud o hyd;
- mae mentrau i hyrwyddo a chynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg yn cael eu cefnogi yn sgil ailsefydlu Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn; ac
- mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Ardal Fenter a ddynodwyd yn ddiweddar yn rhoi cyfle i greu twf cymdeithasol ac economaidd.

3 Canfuwyd hefyd bod gweithdrefnau mwy trylwyr a chyson a datblygu trefniadau llywodraethu wedi cryfhau gallu'r Cyngor i werthuso a gwella gwasanaethau. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae hunanasesiad ac adroddiad hunanwerthuso cyntaf y Cyngor yn gytbwys ac mae'r dyletswyddau adrodd o dan y Mesur wedi'u bodloni;
- mae'r Cyngor wedi datblygu ffyrdd mwy trylwyr nag o'r blaen i asesu ei gynnydd a darparu mwy o gysondeb o ran gwerthuso'r ffordd y darperir gwasanaethau a'r canlyniadau i ddinasyddion;

- mae fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd diwygiedig yn adlewyrchu newidiadau strwythurol diweddar, ac mae pwyllgorau craffu ac archwilio yn parhau i gynnig mewnbwn a her gwerthfawr;
- mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae wedi nodi ffyrdd eraill o gryfhau trefniadau yn y dyfodol; a
- chydymffurfiodd y Cyngor â gofynion adrodd ariannol.

4 Yn olaf, canfuwyd, os ydynt yn cael eu cyflawni'n effeithiol, y dylai cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gynorthwyo gwelliannau ei helpu i ymateb i'r heriau ariannol a heriau eraill sydd i ddod. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- gwelwyd gwelliant yn nhrefniadau cynllunio ar gyfer gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 ac yn sgil hynny daeth ymyriad Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mai 2013;
- cafodd Cynllun Gwella 2013-14 a'r amcanion gwella eu datblygu drwy ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ac roedd yn bodloni gofynion y Mesur;
- gwneir cynnydd da o ran y trefniadau cynllunio ar gyfer trawsnewid, ond mae'r Cyngor wedi cydnabod y gall fod angen mireinio'r rhaglen ymhellach i gynnal gwelliant;
- mae cynllunio ac atebolrwydd cliriach wedi gwella'r rhagolygon ar gyfer gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc;
- mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; ac
- mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei arian a'i gyllideb ond mae'n wynebu heriau o ran ei gapasiti i ddarparu adnoddau digonol sy'n meddu ar y sgiliau priodol i gynorthwyo'r gwasanaeth cyllid corfforaethol.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

## Cynnig ar gyfer gwella

| | |
|---|---|
| C1 | Er mwyn gwneud cynnydd a chyflawni amcanion y Cynllun Trawsnewid, dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau digon o gapasiti, gallu a sefydlogrwydd yn ei wasanaeth cyllid corfforaethol; a<br>• nodi a gwella gwendidau o ran rheoli'r system cyfriflyfr ariannol. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor/ yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a gwybodaeth a rennir a chanfyddiadau ein gwaith sydd wedi'i flaenoriaethu a oedd, eleni, yn cynnwys asesiad o gynnydd y Cyngor yn erbyn dau o'i amcanion gwella:

- Gwell Gwasanaethau i Blant – Sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed a cham-driniaeth a bod eu lles, eu hannibyniaeth a'u sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo; a
- Gwella Llywodraethu Corfforaethol – Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'n llawn ei addewid i hyrwyddo a diogelu buddiannau'r Ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Gwnaeth y Cyngor gynnydd cyson o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai gwasanaethau allweddol

## Mae perfformiad ar draws amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor yn gwella, ond mae lle i wneud rhagor o gynnydd

10 Roedd dangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor – gan gynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a Dangosyddion Statudol Cenedlaethol (NSIs) – wedi gwella yn 2012-13. O'r 36 o'r dangosyddion statudol cenedlaethol a mesurau atebolrwydd cyhoeddus y gellir eu cymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol, roedd dwy ran o dair wedi gwella yn 2012-13 ac un rhan o dair wedi dirywio. Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod 27 y cant o'r dangosyddion yn y chwartel uchaf, a dim ond 18 y cant sydd yn y chwartel isaf, gyda'r 55 sy'n weddill yn y chwarteli canol.

11 Yn ogystal, dangosodd Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, fod y Cyngor wedi perfformio'n dda mewn nifer o feysydd yn 2012-13. O gymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, roedd perfformiad y Cyngor yn y chwarteli uchaf neu'r chwarteli canol ar gyfer 14 o'r 18 o ddangosyddion yn yr Adroddiad. Rhagorodd y perfformiad ar gyfartaledd Cymru mewn dwy ran o dair o'r dangosyddion.

12 Er gwaethaf y darlun hwn sy'n gwella, mae gan y Cyngor ragor i'w wneud i adfer hyder y cyhoedd yn ei allu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg cenedlaethol i gael barn pobl Cymru ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau lleol. Dangosodd arolwg 2012-13 fod 48 y cant o drigolion Ynys Môn yn cytuno'n gryf neu'n dueddol o gytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 57 y cant, gan roi perfformiad y Cyngor yn y chwartel isaf o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

## Mae gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed wedi gwella, ond mae rhai risgiau o hyd o ran darparu gofal cymdeithasol

13 Yn ei hadolygiad a'i gwerthusiad o wasanaethau gofal cymdeithasol yn 2012-13, daeth AGGCC i'r casgliad y gwelwyd newidiadau cadarnhaol ar y cyfan yn y gwasanaethau oedolion a phlant, er bod meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Nododd AGGCC fod agenda gwelliannau corfforaethol y Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r agenda gwella gwasanaethau, ond bod angen i'r Cyngor bellach ymgorffori ei system sicrwydd ansawdd mewn ymarfer o ddydd i ddydd.

14 Lansiwyd gwefan y Cyngor ar ei newydd wedd ym mis Gorffennaf 2012 ac mae prosiect wedi dechrau yn y gwasanaethau oedolion i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r cyfleuster newydd. Mae gan y Cyngor ddewis eang o daflenni gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n disgrifio ei wasanaethau cymdeithasol a bydd yn eu hadolygu er mwyn asesu eu defnyddioldeb a'u hymarferoldeb. Mae Gwasanaethau Plant hefyd yn bwriadu datblygu'r wybodaeth sydd ar y wefan.

15 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran gwella sawl maes yn yr adran gwasanaethau plant, a chafwyd gwelliannau o ran sefydlogrwydd y gweithlu. Er hyn, roedd problemau'n parhau o ran recriwtio i swyddi allweddol, cadw personél a defnyddio staff asiantaethau, a gallai hyn danseilio capasiti ac adnoddau'r Cyngor i wella'r gwasanaeth a chynyddu'r risg ariannol i'r Cyngor.

16 Mae'r perfformiad yn 2012-13 yn dangos gwelliant o flwyddyn i flwyddyn, y mae'r Cyngor yn ei briodoli i gynnydd yn sylw'r rheolwyr, hyfforddiant gwaith cymdeithasol a gwell adnoddau, gan gynnwys cynyddu nifer y staff yn nhîm y rheng flaen. Fodd bynnag, canfu AGGCC fod gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd, a'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael iddynt, yn feysydd i'w datblygu o hyd.

17 Yn y gwasanaethau plant, mae'r boblogaeth sy'n derbyn gofal a chynnydd yn y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar gynnydd. Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu a moderneiddio gwasanaethau plant, gan ragweld y bydd angen ailgynllunio sylweddol i sicrhau effeithlonrwydd a chanlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Mae AGGCC wedi nodi bod y Cyngor yn bwriadu gwario llai ar wasanaethau plant bob blwyddyn, ond nid yw wedi penderfynu sut i gysoni hyn â'r galw cynyddol.

18 Nododd AGGCC fod y Cyngor wedi dioddef oedi o ran gweithredu cynlluniau i foderneiddio gwasanaethau i oedolion ac mae'r adnoddau presennol wedi'u hymrwymo i gynnal cartrefi gofal preswyl. Nes y bydd cytundeb gwleidyddol yn cael ei sicrhau, nid yw'r Cyngor yn gallu datblygu'r gwasanaethau cymunedol sydd eu hangen. Er gwaethaf hyn, canfu AGGCC amrywiaeth o wasanaethau sefydledig sy'n darparu gofal o ansawdd da i oedolion, gan gynnwys Agewell Hwyliog Môn, a enillodd wobr gan Gyngor Gofal Cymru am gael ei arwain gan ddinasyddion a'i gynnal gan bobl hŷn.

19 Mae'r defnydd o feini prawf cymhwysedd llymach yn arwain at lai o becynnau gofal cymunedol a mwy o gyfeirio at y sectorau annibynnol a gwirfoddol. Mae canfyddiadau AGGCC hefyd yn nodi bod y Cyngor wedi nodi llai o ofalwyr, cynnig llai o asesiadau a darparu llai o ofalwyr yn y gwasanaeth yn 2012-13 nag a wnaeth yn y flwyddyn flaenorol. Nid yw cofrestr risgiau y gwasanaethau oedolion yn cynnwys y risg o fethu â gofalu am y rhai nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysedd llymach y Cyngor ac mae AGGCC yn bwriadu mynd ar drywydd y cynnydd yn ystod y flwyddyn nesaf.

20 Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol iawn i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae nifer yr asesiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) ac awdurdodiadau yn fach, ac mae hyn, yn ei dro, yn achosi pryder nad yw'r asesiadau priodol yn cael eu gwneud ac nad yw mesurau diogelu yn cael eu rhoi ar waith o bosibl.

21 Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd Estyn adroddiad, yn dilyn ei asesiad o ansawdd gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc. Daeth Estyn i'r casgliad bod gan y Cyngor weithdrefnau priodol sy'n adlewyrchu polisïau diogelu, a chadarnhawyd bod y Cyngor wedi cymryd camau i fonitro'r broses o recriwtio staff a llywodraethwyr yn ddiogel. Nododd yr arolygiad hefyd fod y Cyngor yn gweithio ar bolisi diogelu corfforaethol ac yn ffurfioli trefniadau ehangach ar gyfer diogelu o fewn y gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Mae'r Cyngor hefyd wedi creu cynlluniau i roi system newydd ar waith i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ddiogelu gan ysgolion. Fel rhan o'n rhaglen reoliadol ar gyfer 2013-14, cynhaliwyd adolygiad cenedlaethol o ddiogelu a byddwn yn adrodd ar y canlyniadau yn 2014-15

## Mae'r Cyngor yn ymateb yn dda i ganfyddiadau arolygiad Estyn yn 2012 ac mae perfformiad ysgolion yn Ynys Môn wedi gwella

22 Cyfeiriais yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol 2013 at yr arolygiad ym mis Mai 2012 gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru o Wasanaethau Addysg y Cyngor i Blant a Phobl Ifanc. Canfu'r arolygiad fod y gwasanaethau'n anfoddhaol a bod eu gallu i wella yn anfoddhaol.

23 Yn dilyn hyn penododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau Fwrdd Adfer i ddarparu cymorth a her allanol ac ymatebodd y Cyngor yn adeiladol i'r adroddiad. Ers hynny, mae'r Bwrdd Adfer wedi adolygu gwybodaeth strategol a gweithredol fanwl ac wedi cael adroddiadau cynnydd rheolaidd.

24 Ym mis Tachwedd 2013, cynhaliodd Estyn ei ymweliad monitro cyntaf i asesu cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn y cynllun gwella ôl-arolygu. Daeth Estyn i'r casgliad bod y Cyngor wedi nodi nifer o rwystrau ac wedi ymateb yn briodol i'w goresgyn drwy:

- benodi'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, sy'n cael cymorth effeithiol gan uwch-swyddog safonau a chynhwysiant parhaol;
- ad-drefnu ar lefel pennaeth gwasanaeth, a gryfhaodd gapasiti ac adnoddau corfforaethol i arwain prosiectau trawsnewid i sicrhau gwelliannau penodol;
- rheoli prosiectau trawsnewid ar lefel uwch, sy'n galluogi'r Cyngor i adeiladu consensws gwleidyddol;
- aelodau yn meddu ar ddealltwriaeth well o gyfrifoldebau'r Cyngor, a chymryd rhan gynyddol o ran dwyn ysgolion i gyfrif a nodi blaenoriaethau ar gyfer craffu; a
- sefydlu trefniadau effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ôl-arolygu a gweithio'n dda gyda Bwrdd Adfer sy'n darparu her allanol.

25 Mae'r Cyngor wedi adolygu ac addasu ei gytundeb partneriaeth gydag ysgolion i adlewyrchu'r bartneriaeth â GwE, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r cytundeb yn amlinellu disgwyliad y dylai ysgolion gymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain ac arwain y drafodaeth ar wella. Mae'n amlinellu rolau'r Cyngor ac ysgolion mewn perthynas â chynorthwyo, monitro a herio'n effeithiol.

26 Nododd Estyn fod perfformiad ysgolion yn Ynys Môn wedi gwella er 2011 a'i fod bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob cyfnod allweddol. Yn ystod 2013 ac yng nghyfnod allweddol 4, nid oes unrhyw ysgol yn y 25 y cant isaf ar gyfer unrhyw un o'r pum prif ddangosydd. Yn y Cyfnod Sylfaen, ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, mae mwyafrif yr ysgolion yn y 50 y cant uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru.

27 Mae gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer monitro a hyrwyddo presenoldeb dysgwyr yn cael effaith gadarnhaol. Mae swyddogion, ysgolion ac asiantaethau perthnasol wedi cydweithredu'n effeithiol i lunio polisi clir ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da. Mae rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r polisi ac yn cydymffurfio ag ef. Yn dilyn hynny, mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella yn y sectorau cynradd ac uwchradd ers arolygiad 2012.

28 Mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu 2.3 pwynt canran dros ddwy flynedd. Mae'r gwelliant hwn yn well o lawer na chyfartaledd ysgolion Cymru yn ystod yr un cyfnod. Mewn ysgolion cynradd, mae presenoldeb yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae wedi gwella ar gyfradd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru er 2010.

## Mae'r Cyngor yn gwneud peth cynnydd i wella ei wasanaeth atgyweirio tai drwy foderneiddio a thrawsnewid y gwasanaeth

29 Cyfeiriodd Adroddiad Gwella Blynyddol 2013 yr Archwilydd Cyffredinol at ein hadolygiad yn 2012 o ba mor effeithiol yr oedd gwasanaeth cynnal a chadw'r Cyngor ar gyfer atgyweiriadau ymatebol, oherwydd bod hon yn swyddogaeth bwysig i denantiaid y Cyngor.

30 Canfu'r adolygiad fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer ei Uned Cynnal a Chadw Adeiladau wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac roedd angen eu diweddaru. Cafodd y trefniadau Tendro Cystadleuol Gorfodol (CCT) eu disodli gan ddyletswydd i sicrhau gwerth gorau flynyddoedd lawer yn ôl ac nid oedd gofyniad, felly, i'r Cyngor drefnu darparu gwasanaethau yn seiliedig ar raniad cleient/contractwr. Canfu adolygiad dilynol a chysylltiedig, a gynhaliwyd gan adran Archwiliad Mewnol y Cyngor, wendidau yn nhrefniadau caffael yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau.

31 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn adeiladol ac yn gyfrifol, gan weithredu ymagwedd rheoli prosiectau ffurfiol a chynllun gweithredu i foderneiddio a thrawsnewid y gwasanaeth. Er mwyn rhoi cyfeiriad clir ar gyfer yr hyn sydd angen ei wella, mae'r Cyngor wedi datblygu proses arfarnu opsiynau, wedi'i llywio gan weithdai a chyfarfodydd unigol â staff gwasanaeth, perfformiad a chyllid. Cafodd yr ymagwedd ei gwerthuso'n annibynnol i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn yr adolygiadau blaenorol ac i ddarparu nifer o opsiynau ar gyfer y gwasanaeth. Cafodd manteision ac anfanteision gwahanol fathau o ddarpariaeth eu hasesu ac mae'r Cyngor wedi dewis cadw'r gwasanaeth yn fewnol. Mae'r opsiwn yn uno timau cleient a chontractwyr yn un uned atgyweirio tai, ac yn moderneiddio ac yn trawsnewid y gwasanaeth. Mae'r opsiwn o gymorth i ganolbwyntio ar gwsmeriaid yn well, ac yn cyflawni tua £250,000 o arbedion y flwyddyn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd wrth i'r gwasanaeth ddatblygu.

## Mae peth cynnydd wedi'i wneud o ran rheoli diogelwch data ac asedau gwybodaeth, ond mae mwy i'w wneud o hyd

32 Daeth Adroddiad Gwella Blynyddol 2013 i'r casgliad bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gwybodaeth yn cyfyngu ar ei allu i wella. Yn benodol, roedd gwendidau o ran diogelwch data a rheoli gwybodaeth. Nodwyd gwendidau tebyg mewn amrywiaeth o adroddiadau'n dyddio o fis Mai 2011, gan gynnwys adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar Reoli Cofnodion Modern, Diogelwch Data a Pharhad Busnes, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012.

33 Yn dilyn achosion o dorri Deddf Diogelu Data 1998, cytunodd y Cyngor i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gynnal archwiliad cydsyniol o drefniadau'r Cyngor ar gyfer prosesu data personol. Cynhaliodd archwilwyr y Comisiynydd Gwybodaeth waith maes ym mis Gorffennaf 2013 a chadarnhaodd eu hadroddiad yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau rheoliadol blaenorol ac ychwanegu atynt.

34 Yn hanesyddol, mae rhai materion o ran capasiti ac adnoddau wedi bod yn ffactor, a chyfrannodd hyn at ddiffyg cydymffurfio â diogelu data yn y Cyngor. I helpu i fynd i'r afael â'r gwendidau, mae'r Cyngor wedi penodi Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO), wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth ac wedi llunio cynllun gweithredu i sicrhau bod

yr argymhellion a wnaed gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael eu gweithredu.

35 Mae'r Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth yn rhan o raglen drawsnewid y Cyngor i wella gwasanaethau a dyma'r corff sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun gweithredu. Mae pedwar polisi craidd, sy'n cwmpasu meysydd allweddol llywodraethu gwybodaeth a'r risgiau cysylltiedig, wedi cael eu datblygu a'u cymeradwyo gan y Cyngor. Er bod peth cynnydd wedi'i wneud, mae amserlenni'r prosiect wedi llithro, yn rhannol oherwydd absenoldeb prif swyddog gweithredol a rheolwr prosiect. Fel ymateb i hyn, mae trefniadau interim ar waith i symud y prosiect ymlaen er mwyn cyrraedd ei ddyddiad targed, sef mis Awst 2014. Mae gwelliannau a gynlluniwyd sydd heb eu cyflawni o hyd sy'n ymwneud â gwendidau o ran mynediad eiddo, diogelwch a threfniadau storio TGCh.

36 Yn ogystal, nododd AGGCC fod rheoli gwybodaeth bersonol yn risg ac yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Mae amserlen y prosiect yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i reoli llithriant, ond gall oedi pellach effeithio ar elfennau dilynol eraill y prosiect. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi nodi y byddant yn gwneud gwaith dilynol yn ystod 2014, a gallai methu gweithredu newid arwain at gymryd camau gorfodi yn erbyn y Cyngor. Yn y cyfamser, bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â rhai rhannau o'r prosiect yn aros a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd.

## Mae mentrau i hyrwyddo a chynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg yn cael eu cefnogi yn sgil ailsefydlu Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn

37 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

38 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a rhoi cyngor o ran eu gweithredu. Cyfrifoldeb cynghorau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu mwy o wybodaeth yn ôl y gofyn.

39 Mae'r Cyngor wedi comisiynu astudiaeth sylfaen o'r Gymraeg yn Ynys Môn. Y bwriad yw casglu gwybodaeth gynhwysfawr am gyflwr yr iaith, a fydd yn sail i bolisïau a gwaith asesu effaith y Cyngor. Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn wedi'i ailsefydlu ar y cyd â'r Fenter Iaith[1] er mwyn hyrwyddo amcanion 'Iaith Fyw: Iaith Byw' Llywodraeth Cymru yn gymunedol. Nid oes gan 19 y cant

1 Sefydliad cymunedol sy'n gweithio i godi proffil y Gymraeg mewn ardal benodol yw Menter Iaith.

o staff rheng flaen y Cyngor sgiliau digonol yn y Gymraeg i allu cynnig gwasanaeth yn yr iaith. Pan fydd aelodau newydd o staff yn cael eu penodi i swyddi rheng flaen lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, gosodir gofynion dysgu oni bai bod y gweithwyr yn ddwyieithog. Mae'r Cyngor wedi darparu gwybodaeth am sampl o gontractau a gafodd eu monitro ac a oedd yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg, ond mae angen darparu adroddiad llawn ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf. Mae'r Cyngor wedi nodi bod risg o hyd o ran gallu ac adnoddau'r Uned Gyfieithu a bydd yn angenrheidiol monitro'r sefyllfa i sicrhau nad oes unrhyw ddiffygion.

## Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Ardal Fenter a ddynodwyd yn ddiweddar yn rhoi cyfle i greu twf economaidd

40 Ymdrech ar y cyd rhwng y Cyngor a nifer o randdeiliaid yn y sector cyhoeddus a phreifat yw Rhaglen Ynys Ynni Môn. Gan weithio mewn partneriaeth, nod y rhaglen yw rhoi'r ynys ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu ym maes ynni, cynhyrchu a gwasanaethau, gyda'r posibilrwydd o sicrhau manteision economaidd sylweddol.

41 Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Ardal Fenter a ddynodwyd yn ddiweddar yn gyfle i greu nifer sylweddol o swyddi newydd a thai o ganlyniad i'r buddsoddi sydd wedi'i gynllunio yn y sector ynni carbon isel, a'i dwf posibl. Mae'r cyngor yn ystyried datblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ac yn gwella seilwaith yr ynys. Un o'r cynlluniau yw datblygu gorsaf pŵer niwclear newydd yn Wylfa. Nodwyd yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2013 fod consortiwm o dramor wedi prynu'r safle ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol.

42 Mae'r cam nesaf yn y ddatblygiad wedi'i gyhoeddi ac mae cynlluniau i adeiladu Wylfa Newydd ar dir ger gorsaf bŵer bresennol Wylfa. Fodd bynnag, mae hon yn fenter hirdymor a fydd yn ei gwneud yn ofynnol cael asesiadau gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) a Chyfoeth Naturiol Cymru cyn bod cynigion safle-benodol yn cael eu cyflwyno. Bydd rheoleiddwyr yn ystyried goblygiadau diogelwch, diogeledd, amgylcheddol a gwastraff dyluniadau'r adweithyddion newydd, wrth i'r broses o ddadgomisiynu'r safle blaenorol gael ei chynnal dros gyfnod sylweddol. Yn amodol ar gael y caniatadau perthnasol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Cyngor, disgwylir i hyd at 6,000 o swyddi gael eu creu fydd yr adweithyddion newydd yn cael eu hadeiladu a thua 1,000 o swyddi pan fydd y safle'n weithredol.

43 Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gynorthwyo a datblygu sectorau twf allweddol eraill, megis twristiaeth, sy'n helpu i hybu economi'r Ynys. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod y diwydiant twristiaeth wedi cynhyrchu £256 miliwn yn ystod 2013 ac wedi cefnogi dros 4,000 o swyddi llawn amser.

# Mae gweithdrefnau mwy trylwyr a chyson a datblygu trefniadau llywodraethu wedi cryfhau gallu'r Cyngor i werthuso a gwella gwasanaethau

## Mae hunanasesiad ac adroddiad hunanwerthuso cyntaf y Cyngor yn gytbwys ac mae'r dyletswyddau adrodd o dan y Mesur wedi'u bodloni

44 Daeth ymyriad Llywodraeth Cymru yn Ynys Môn i ben yn ffurfiol ym mis Mai 2013. Cyn y dyddiad hwnnw, cytunodd y Cyngor i gwblhau a chyflwyno ei hunanasesiad cyntaf i'r Comisiynwyr a Llywodraeth Cymru. Rhoddodd yr asesiad werthusiad teg a chytbwys o berfformiad ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn roedd y Cyngor yn ei wneud i gynnal gwelliant.

45. Yn dilyn hynny, lluniodd y Cyngor ei Adroddiad Perfformiad 2012-13 ac, yn Llythyr Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2013, nodwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â'i ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Yn yr adroddiad rhoddir asesiad cytbwys o gyflawni gan gysylltu dadansoddi data perfformiad ag amcanion gwella'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr holl elfennau gofynnol ac, yn benodol, mae'n esbonio sut mae ei gynnwys yn cyfrannu at ddyletswydd statudol y Cyngor i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a bod yn atebol. Noda hefyd berfformiad y Cyngor yn erbyn yr holl ddangosyddion perfformiad statudol. Mae arddull a chynnwys yr adroddiadau wedi gwella ers y llynedd, sy'n adlewyrchu ymateb adeiladol y Cyngor i adborth y llynedd.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu ffyrdd mwy trylwyr nag o'r blaen i asesu ei gynnydd a darparu mwy o gysondeb o ran gwerthuso'r ffordd y darperir gwasanaethau a'r canlyniadau i ddinasyddion

46 Mae'r Cyngor wedi datblygu adolygiadau gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn sy'n rhan o'i fframwaith rheoli cynllunio a pherfformiad corfforaethol diwygiedig. Mae'r adolygiadau'n rhoi her gadarn, sy'n galluogi uwch-reolwyr ac aelodau i ddeall yn well pa mor dda mae pob gwasanaeth yn perfformio yn erbyn targedau ac i nodi'r hyn sydd angen ei wneud mewn meysydd nad ydynt yn perfformio cystal. Mae'r adolygiadau wedi hyrwyddo mwy o gysondeb o ran hunanwerthuso ar draws gwasanaethau ac maent yn cynnwys:

- dadansoddiad o wybodaeth ariannol a pherfformiad;
- edrych tua'r gorwel am unrhyw faterion neu newidiadau a all effeithio ar y gwasanaeth; a
- dadansoddiad o berfformiad yn y gorffennol ac amcanion ar gyfer y dyfodol.

47 Daeth Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2013 i'r casgliad fod cofnod hunanwerthuso'r Cyngor yn ystod 2011-12 yn anghyson, gydag asesiadau allanol yn rhoi darlun o amrywiol o ran dibynadwyedd hunanwerthusiad y Cyngor

o'i berfformiad. Ers hynny, mae Estyn ac AGGCC wedi nodi bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer hunanwerthuso wedi gwella.

48 Ym mis Tachwedd 2013, daeth Estyn i'r casgliad fod arweinwyr a rheolwyr wedi datblygu a sicrhau cysondeb yn y trefniadau hunanwerthuso ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Mae darparwyr gwasanaethau wedi'u cynnwys yn y broses ac maent yn deall y trefniadau hunanwerthuso, ac mae gan staff ddealltwriaeth gynyddol o'u cyfraniad unigol tuag at nodau strategol y gwasanaeth addysg.

49 Lluniodd y Cyngor adroddiad hunanwerthuso a oedd, ym marn Estyn, yn werthusol, yn fanwl ac a oedd yn nodi cryfderau a meysydd y mae angen sylw arnynt. Mae swyddogion y gwasanaeth addysg yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn olrhain cynnydd a herio staff ynglŷn â datblygiadau yn eu meysydd cyfrifoldeb. Erbyn hyn ceir fformat cyffredin ar gyfer cynllunio ar draws gwasanaethau, sy'n hwyluso'r broses o hunanwerthuso, asesiad effaith ac asesiad risgiau. Fodd bynnag, nid oes proses ffurfiol o gofnodi penderfyniadau ac mae hyn yn gwanhau'r elfen o atebolrwydd.

50 Nododd Estyn fod y broses o bennu targedau yn dryloyw, yn drylwyr ac wedi gwella drwy ddefnyddio data yn fwy effeithiol, gan gynnwys trothwyon perfformiad priodol o ran teuluoedd prydau ysgol am ddim a llinellau atchweliad. Mae'r Cyngor bellach yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad, ac yn herio ysgolion ac adrannau pynciau unigol yn llawer mwy effeithiol nag yn y gorffennol. Defnyddia'r Cyngor ganllawiau yn y cytundebau partneriaeth diwygiedig i gategoreiddio ysgolion er mwyn nodi'r rhai y mae angen her neu gymorth ychwanegol arnynt i wella.

51 Canfu Estyn fod swyddogion yn cyflwyno gwerthusiad cytbwys o berfformiad ar draws y Cyngor i aelodau etholedig, ond nid yw'r wybodaeth yn cynnwys enwau ysgolion sy'n peri pryder neu'n tangyflawni. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Monitro Safonau Ysgolion i graffu'n fanwl ar berfformiad ysgolion sy'n tangyflawni a'u dwyn i gyfrif. Mae tair ysgol eisoes wedi'u cyflwyno gerbron y grŵp ac mae cyfarfodydd eraill wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol agos. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith y gwaith hwn.

52 Nododd Estyn fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau atebolrwydd a chraffu effeithiol. Mae'r Cyngor yn darparu canllawiau a hyfforddiant defnyddiol i aelodau o'r byrddau craffu ac mae aelodau'n datblygu dealltwriaeth well o'u rôl. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn sylweddoli bod angen gwella'r system wrth i'r broses aeddfedu. Mae blaenoriaethau addysg y Cyngor wedi'u llywio gan y byrddau prosiect trawsnewid sy'n defnyddio disgyblaethau rheoli prosiectau'n effeithiol. O ganlyniad, ceir arwyddion cynnar bod cynnydd amserol a phriodol o ran cyflawni nodau gweithredol y prosiectau unigol.

53 Daeth Estyn i'r casgliad bod dealltwriaeth Estyn o gryfderau a gwendidau'r gwasanaeth wedi gwella ers yr arolygiad yn 2012. Mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir i aelodau yn gyson dda ac mae wedi arwain at well her ac atebolrwydd. Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes wedi darparu hyfforddiant cynhwysfawr i aelodau ar herio ysgolion. Mae hyn yn cynorthwyo gwaith y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion o ran craffu ar berfformiad ysgolion unigol sy'n tangyflawni a threfniadau cryfach.

54 Yn ystod 2012-13, daeth AGGCC hefyd i'r casgliad bod y Cyngor wedi sefydlu prosesau effeithiol ar gyfer sicrhau goruchwyliaeth gorfforaethol o'r gwasanaethau. Cyflwynodd gwasanaethau plant adroddiadau misol i'r bwrdd gwella a chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys y comisiynwyr, aelodau gweithredol a chynghorwyr. Mae AGGCC yn cydnabod bod angen i'r Pwyllgor Archwilio a ffurfiwyd yn ddiweddar barhau i ddatblygu ei oruchwyliaeth o'r gwasanaethau cymdeithasol.

## Mae fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd diwygiedig yn adlewyrchu newidiadau strwythurol diweddar, ac mae pwyllgorau craffu ac archwilio yn parhau i gynnig mewnbwn a her gwerthfawr

55 Daeth Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2013 i'r casgliad bod y Pwyllgor Gwaith a'r trefniadau monitro ar gyfer craffu wedi'u sefydlu a bod y pwyllgor archwilio a chyfarfodydd craffu yn cael eu cynnal mewn ffordd broffesiynol. Ers hynny mae'r Cyngor wedi diwygio ei fframwaith llywodraeth democrataidd ac atebolrwydd i adlewyrchu'r lleihad yn nifer y cynghorwyr o 40 i 30 yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2013.

56 Mae nifer y pwyllgorau craffu wedi lleihau o bump i ddau, gyda'r Pwyllgor Archwilio yn gweithredu ar delerau tebyg i'r hyn a gafwyd yn flaenorol. Mae aelodau o bob pwyllgor wedi cymryd rhan mewn gweithdai sefydlu a datblygu i ddarparu ymagwedd gyson at lywodraethu. Mae ansawdd yr adroddiadau a lefel y drafodaeth yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu ac archwilio wedi bod o safon dda ar y cyfan ac mae nifer o faterion, sy'n hanfodol i'r gwelliant parhaus, wedi datblygu drwy'r broses ddemocrataidd. Mae aelodau etholedig a lleyg o bwyllgorau yn parhau i ddarparu mewnbwn a her werthfawr i'r broses lywodraethu.

57 Ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2013, ffurfiwyd clymblaid reoli, a dewiswyd Arweinydd a Phwyllgor Gwaith newydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi creu cabinet yr wrthblaid a deiliaid portffolio gwasanaethau yr wrthblaid i hyrwyddo mwy o gonsensws yn holl drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

58 Daeth Llythyr Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2013 i'r casgliad bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'n cynnig blaenorol ar gyfer gwella i ddatblygu rôl rheolwyr canol Cynghorau er mwyn sicrhau eu bod:

- gyda'i gilydd, yn rhoi adborth i uwch reolwyr am weithredu newid; ac
- yn unigol a chyda'i gilydd, yn atebol am gyflawniad gweithredol newid yn y gwasanaethau y maent yn eu rheoli.

59 Ers hynny mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei dîm penaethiaid gwasanaethau o 16 i 10. Mae'r ailstrwythuro yn adolygu rôl pennaeth gwasanaeth ac yn dod â mwy o atebolrwydd iddo. Mae'r tîm yn gweithredu ar y cyd o dan yr enw 'Y Penaethiaid' ac mae'n gyfrifol am raglenni a phrosiectau newid gwasanaethau o dan y Rhaglen Drawsnewid. Mae'r Penaethiaid yn destun adolygiadau herio gwasanaethau, a gynhelir yn eu gwasanaethau eu hunain ddwywaith y flwyddyn, a'u cynnal gan y Grŵp Adolygu Perfformiad, sy'n cynnwys swyddogion ac aelodau.

60 Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arwain wedi'i gwblhau ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'r unigolion ynddo. Mae'r Arweinydd, y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r tri Chyfarwyddwr yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth gref a gweladwy, sy'n ychwanegu'n sylweddol at gapasiti ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni rhagor o welliant o ran swyddogaethau corfforaethol a phenodol i wasanaethau.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae wedi nodi ffyrdd eraill o gryfhau trefniadau yn y dyfodol

61 Nododd Llythyr Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2013 fod y Cyngor wedi bod yn agored i ddysgu, fel y dangosir gan y gwelliannau yr oedd wedi'u gwneud i'w drefniadau ar gyfer drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012-13. Yn ogystal, nododd y Cyngor ffyrdd eraill o wella ei drefniadau yn y dyfodol, megis:

- cysoni'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol â'r Hunanasesiad Corfforaethol, y Cynllun Trawsnewid a'r Gofrestr Risgiau;
- defnyddio'r Grŵp Adolygu Perfformiad i sicrhau bod materion cynllunio corfforaethol a pherfformiad yn cyfrannu'n fwy nag o'r blaen at lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;

- datblygu cynllun gweithredu i roi'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed a lleihau'r risgiau a'r wybodaeth sydd wedi dyddio sy'n dal yn rhan o'i fframwaith llywodraethu;
- ystyried ymagwedd awdurdodau eraill a chanddynt arfer da cydnabyddedig; a
- chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lywodraethu a lleihau'r canfyddiad bod llywodraethu'n ymwneud â materion ariannol yn bennaf.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â gofynion adrodd ariannol

62 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei barn ar gyfrifon y Cyngor ar 29 Tachwedd 2013. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

# Os cânt eu cyflawni'n effeithiol, dylai cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau ei helpu i ymateb i'r heriau ariannol a'r heriau eraill sydd i ddod

## Gwelwyd gwelliant yn nhrefniadau cynllunio ar gyfer gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 ac yn sgil hynny daeth ymyriad Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mai 2013

63 Daeth Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2013 i'r casgliad bod ymyriad Llywodraeth Cymru wedi'i gwtogi ym mis Hydref 2012, gyda phwerau i wneud penderfyniadau'n cael eu dychwelyd i'r Arweinydd a'i Bwyllgor Gwaith. Cafodd tri o'r pum Comisiynydd eu cadw tan 31 Mai 2013, i fonitro cynnydd ac adrodd arno i Weinidogion ac i gynnig arweiniad, mentora a chymorth parhaus i'r Cyngor a swyddogion. Yn ogystal, cadwodd y Comisiynwyr a oedd ar ôl y pŵer i wrthdroi unrhyw un o benderfyniadau'r Cyngor a fyddai'n mynd yn groes i gyngor swyddogion statudol. Gelwid y cyfnod hwn yn gyfnod 'gwella a chynaliadwyedd' yr ymyriad.

64 Yn ystod cam 'gwella a chynaliadwyedd' yr ymyriad, datblygodd a mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Trawsnewid fel sail ar gyfer ei ddatblygiad strategol a'i welliannau dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun Trawsnewid yn dwyn ynghyd flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella ac mae'n ymgorffori 10 thema llywodraethu corfforaethol o dan fframwaith rheoli rhaglenni. Gwnaed rhagor o gynnydd yn ystod y cyfnod hwn. Yn benodol:

- ailafaelodd y Pwyllgor Gwaith yn rheolaeth ddemocrataidd o'r Cyngor mewn ffordd aeddfed ac ystyriol gan barhau i weithio gyda'r Comisiynwyr ac eraill yn eu dymuniad i sicrhau gwelliant hirdymor;
- gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran sefydlu cynlluniau trawsnewid a chadernid y trefniadau sydd ar waith i'w cyflawni;
- cytunodd y Cyngor ar gyllideb heriol ar gyfer 2013-14 a chryfhaodd ei gyfansoddiad; a
- chafwyd cynllunio gofalus cyn etholiad Mai 2013, gan gynnwys cytuno ar strwythur Pwyllgor diwygiedig i alluogi'r 30 o aelodau newydd y Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau.

65 Amlygodd seithfed adroddiad cynnydd y Comisiynwyr ym mis Ebrill 2013 gynnydd y Cyngor a barn gadarnhaol y Comisiynwyr ar allu'r Cyngor i gyflawni gwelliannau tymor hwy, cynaliadwy heb yr angen am ymyriad allanol parhaus.

66 Cyn yr etholiad ym mis Mai 2013, gweithiodd y Cyngor yn dda gyda'r Comisiwn Etholiadol, gan hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Newidiodd yr aelodau a oedd newydd eu hethol gyfansoddiad y Cyngor, gan leihau'r proffil oedran, gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau rhyw ychydig a chyflwyno ystod fwy amrywiol o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau. Yn dilyn yr etholiad, parhaodd y cynghorwyr i ddangos y ddisgyblaeth grŵp yr oedd y Comisiynwyr wedi'i chefnogi a'i datblygu'n flaenorol. Arweiniodd y ddisgyblaeth grŵp hon at sefydlu clymblaid reoli mewn modd trefnus ac yn dilyn hynny penodwyd Arweinydd a Chabinet newydd. Ers hynny, mae nifer bach o aelodau wedi newid grwpiau, ond nid yw hyn wedi tanseilio sefydlogrwydd a gweithrediad trefnus y Cyngor.

67 Roedd y Cyngor wedi disgwyl i rai cynghorwyr a oedd newydd eu hethol fod yn llai profiadol ac felly lluniwyd rhaglen sefydlu wedi'i chynllunio i adlewyrchu anghenion datblygu a hyfforddi aelodau unigol. Darparwyd cyfres o sesiynau briffio i gynorthwyo aelodau newydd gyda rhaglen drawsnewid y Cyngor a'u rôl bwysig ynddi.

68 Helpodd cryfder yr Uwch Dîm Arwain, gwell gallu i reoli a fframwaith cyfansoddiadol cadarnach y Cyngor i atal unrhyw broblemau posibl a allai fod wedi tanseilio cynnydd a, lle y bo angen, i ymateb i broblemau o'r fath.

69 Ar 10 Mai 2013, ysgrifennodd y Comisiynwyr at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (y Gweinidog), gan argymell y dylai ymyriad Llywodraeth Cymru ym materion Cyngor Sir Ynys Môn ddod i ben pan fyddai'r Cyfarwyddyd Gweinidogol yn dod i ben ar 31 Mai 2013. Ar 13 Mai 2013, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Gweinidog gan gydnabod cynnydd y Cyngor a nododd nad oedd yn gweld unrhyw ddiben pellach mewn parhau â'r ymyriad. Ar 23 Mai 2013, cyhoeddodd y Gweinidog yn ffurfiol y byddai'r ymyriad yn dod i ben.

## Cafodd Cynllun Gwella 2013-14 ac amcanion gwella eu datblygu drwy ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ac roedd yn bodloni gofynion y Mesur

70 Cafodd Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-14 (y Cynllun), adolygiad blynyddol o'i Gynllun Corfforaethol 2013-17, ei oedi'n fwriadol, i roi digon o amser i'r aelodau newydd eu hethol adolygu Amcanion Gwella presennol y Cyngor a sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â'r cynllun gwella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Nododd Llythyr Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2013 fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur.

71 I helpu i ddatblygu blaenoriaethau'r Cynllun, ymgynghorodd y Cyngor ag amrywiaeth o randdeiliaid a'r cyhoedd cyn cwblhau amcanion gwella 2013-14 ar eu ffurf derfynol. Cwmpasodd ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos o'r enw Gwneud Gwahaniaeth y rhan fwyaf o'r ynys a chafodd ei hyrwyddo drwy gyfryngau cymdeithasol, y wasg a gorsafoedd radio lleol, posteri mewn busnesau preifat gan gynnwys archfarchnadoedd, siopau lleol, meddygfeydd a deintyddfeydd.

72 Cafodd y Cynllun ei gyhoeddi yn dilyn dadansoddiad o'r ymgynghoriad a thrafodaethau pellach yn y Cyngor, mewn cyfarfodydd Craffu a chyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref a dechrau mis Tachwedd 2013. Rhyddhawyd y Cynllun ar wefan y Cyngor a dosbarthwyd copïau papur mewn adeiladau cyhoeddus ac yn swyddfeydd y Cyngor.

73 Mae'r Cynllun yn disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor yn gryno ac yn glir ac mae'n esbonio sut mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu barn y cyhoedd yn ogystal â barn y Cyngor a phartneriaid eraill. Mae'r Cyngor wedi diffinio 56 o Amcanion Gwella, ond mae'r rhain wedi'u grwpio'n ddefnyddiol gyda'i gilydd o dan 19 o Flaenoriaethau Datblygu. Mae'r rhain, yn eu tro, yn cwmpasu tri phrif faes gwasanaeth gan gynnwys Addysg, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant. Mae'r cynllun yn ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a gweithio mewn partneriaeth o ran datblygu a gweithredu, ac mae llawer o'r elfennau yn ataliol.

74 Mae'r Cyngor wedi helpu i ddiffinio ei uchelgais ar gyfer 2013-14 drwy ddewis nifer o ddangosyddion canlyniadau ar gyfer y rhan fwyaf o'i Amcanion Gwella. Mae pob cyfres o ddangosyddion yn cwmpasu'r gwelliannau y mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd dinasyddion yn eu profi yn ystod y flwyddyn. Wrth bennu ei dargedau ar gyfer y dangosyddion hyn, mae'r Cyngor wedi ystyried perfformiad y presennol a'r gorffennol yn ofalus.

75 Mae pob maes gwasanaeth yn y Cynllun yn cynnwys adran ddefnyddiol o'r enw 'Beth mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym', sy'n nodi pwyntiau dysgu o ymgynghoriadau blaenorol ac yn pwysleisio ymrwymiad y Cyngor i adborth ac ymgysylltu.

76 Yr amcanion yw blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2013-14, ond mae'r Cyngor yn cydnabod yn ei Gynllun yr angen i wneud cynnydd a chyflwyno adroddiadau ar feysydd gwaith sydd ar ôl yn deillio o'i Gynllun Corfforaethol 2013-2017. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy'r fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

## Gwneir cynnydd da o ran y trefniadau cynllunio ar gyfer trawsnewid, ond mae'r Cyngor wedi cydnabod y gall fod angen mireinio'r rhaglen ymhellach er mwyn cynnal y gwelliant

77 Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cyfeiriwyd at y ffaith bod y Cyngor wedi datblygu Cynllun Trawsnewid a chytuno arno, fel sail i'w ddatblygiad strategol a''i welliannau dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun Trawsnewid yn rhaglen uchelgeisiol, yn seiliedig ar chwe thema gwella a ffrydiau gwaith sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion corfforaethol y Cyngor a themâu llywodraethu'r Comisiynwyr blaenorol.

78 Gydag unrhyw gynllun ar raddfa fawr, mae angen trefniadau cadarn i reoli a gweithredu newid. Mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith rheoli rhaglen sy'n cynnwys tri Bwrdd Rhaglen i helpu i gyflawni'r Cynllun. Mae pob Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am thema benodol a ffrydiau gwaith sy'n ymwneud ag:

- Ynys Fenter;
- Rhagoriaeth Gwasanaeth; a
- Thrawsnewid Busnes.

79 Nodau'r tri Bwrdd Rhaglen yw goruchwylio cyflawni'r Cynllun a sicrhau bod rhaglenni newid a phrosiectau unigol yn cael eu rheoli, eu cyflawni a'u monitro. Mae'r Byrddau'n cynnwys uwch swyddogion a chynghorwyr, ac felly rhoddir arweinyddiaeth a chyd-drefniant o ran y daith drawsnewid. Mae'r Byrddau'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd ac mae ganddynt yr awdurdod i gyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arwain. Mae gan aelodau'r Bwrdd y statws angenrheidiol yn y Cyngor i allu dylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gweithredu wedi hynny.

80 Mae'r rhaglen drawsnewid yn darparu'r modd o ddatblygu cynlluniau newid a gwella yn effeithiol drwy ddefnyddio disgyblaethau rheoli prosiectau. Mae staff sy'n ymwneud â chynorthwyo'r rhaglen drawsnewid wedi cael hyfforddiant rheoli prosiectau ac mae cynnydd da yn cael ei wneud mewn nifer o ffrydiau gwaith a chynlluniau newid ar gyfer gwella.

81 Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi nodi'r angen am gapasiti ac adnoddau ychwanegol i ddatblygu prosiectau penodol ac mae'n dyrannu rhagor o adnoddau i gyflawni'r nod hwn. Wrth i'r rhaglen drawsnewid gyrraedd diwedd ei 12 mis cyntaf, bydd y Cyngor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu i nodi unrhyw welliannau eraill ym mhrosesau'r rhaglen a blaenoriaethu gweithgarwch trawsnewid.

## Mae cynllunio ac atebolrwydd cliriach wedi gwella'r rhagolygon ar gyfer gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc

82 Yn ystod mis Chwefror 2014, cynhaliodd Estyn ei ail ymweliad i fonitro gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc a daeth i'r casgliad bod cynnydd da yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes.

83 Ers arolygiad 2012, mae'r gwasanaeth Addysg wedi ffurfioli ei systemau mewnol a gwella eu cysondeb, gan gynnwys ei phrosesau cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risgiau. O dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, mae staff ar draws y gwasanaeth wedi cyfrannu at ddatblygu'r prosesau ac mae mwy o ymdeimlad o berchenogaeth ac ymrwymiad a dealltwriaeth glir o'r systemau newydd gan staff ar bob lefel.

84 Nododd Estyn fod cynllunio'r Cyngor yn rhoi cyfeiriad clir i waith y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes ac mae gan staff ddealltwriaeth well o'u cyfraniad unigol tuag at gyflawni nodau ac amcanion y gwasanaeth. Mae cynlluniau corfforaethol, gwasanaeth a phersonol wedi'u cysylltu'n glir â thargedau personol perthnasol a meini prawf, sy'n cael eu monitro'n chwarterol gan reolwyr llinell.

Yn ogystal, mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i herio a thrafod cynnydd yn erbyn targedau gwasanaeth.

85 Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer nodi a chofnodi risgiau. Tynnir sylw'r uwch dîm arwain at risgiau sylweddol ac mae'r gofrestr risgiau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn galluogi swyddogion i liniaru risgiau ac ymateb mewn ffordd gytbwys a phriodol pan fydd llithriant posibl yn erbyn amserlenni ar gyfer cam gweithredu penodol.

86 Yn ogystal, canfu Estyn fod y Cyngor wedi gweithredu ffyrdd eraill o wella trefniadau'r gwasanaeth yn y dyfodol, fel:

- datblygu technegau rheoli prosiectau cadarn gyda'r staff yn cael hyfforddiant priodol a sicrhau bod trefniadau ar waith i ddechrau rhaglenni prosiectau a chyflwyno adroddiadau cynnydd arnynt;
- mae adnoddau ar gyfer y gwasanaeth wedi gwella ac mae atebolrwydd swyddogion i brosesau craffu ac aelodau wedi cynyddu'n sylweddol; a
- mabwysiadu dulliau cadarnach o reoli ysgolion sy'n gorwario neu'n tanwario a rhoi arweiniad lle bo angen, ond mae lle i gryfhau'r trefniadau ym mhob ysgol yn Ynys Môn.

87 Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran darparu addysg ôl-16 drwy drefniadau partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd. Mae'r ddau gyngor wedi cytuno i gefnogi Partneriaeth 16+ Gwynedd a Môn, sy'n fenter i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dilyn cyrsiau cydweithredol. Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi'n glir y disgwyliadau i ysgolion ac arweinwyr ysgolion ac mae'n defnyddio data perfformiad yn effeithiol i herio ysgolion a chytuno ar dargedau.

88 Daeth Estyn i'r casgliad bod ailstrwythuro'r gwasanaeth Dysgu Gydol Oes wedi ehangu ei gapasiti a'i adnoddau a chryfhau'r llinellau atebolrwydd, gan gynnwys pennu targedau ystyrlon a heriol.

89 Wedi cwblhau'r ymweliadau monitro gan Estyn, cyhoeddodd Prif Arolygydd ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar 20 Mehefin 2014 nad yw'r Cyngor bellach mewn mesurau arbennig ac nad oes angen gwaith dilynol pellach gan Estyn.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

90 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (y Ddeddf) yn nodi gofynion penodol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2012. Ceir alinio sylweddol rhwng y gofyniad i baratoi Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu Amcanion Gwella o dan y Mesur.

91 Mae Amcanion Gwella'r Cyngor yn cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb, sy'n cynnwys gwybodaeth am waith cydraddoldeb y Cyngor. Credwn fod y Cyngor wedi bodloni gofynion y Ddeddf o ran pennu ei Amcanion Gwella.

## Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei arian a'i gyllideb ond mae'n wynebu heriau o ran ei gapasiti i ddarparu adnoddau digonol sy'n meddu ar y sgiliau priodol i gynorthwyo'r gwasanaeth cyllid corfforaethol

92 Er mwyn i'r Cyngor lwyddo o ran cyflawni ei Gynllun Trawsnewid, mae'n angenrheidiol i'r Pwyllgor Gwaith gael gwybodaeth ariannol amserol a chyson. Mae'r Cyngor yn wynebu heriau yn ei wasanaeth ariannol corfforaethol, ar ôl wynebu problemau o ran gweithredu ei system cyfriflyfr ariannol newydd. Yn ogystal, mae diffyg capasiti ac adnoddau i ddarparu a chadw adnoddau digonol sy'n meddu ar y sgiliau priodol. Felly mae'r Cyngor yn dibynnu gormod ar staff dros dro a staff asiantaeth ar gyfer swyddi allweddol yn y tîm cyllid.

93 Mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol ac yn gyfrifol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn ac mae wedi bod yn agored ac yn dryloyw mewn trafodaethau ag archwilwyr, gan geisio cyngor lle y bo'n angenrheidiol. Oherwydd bod y Cyngor wedi'i gynnwys yn ail flwyddyn rhaglen asesiadau corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2014-15, rydym wedi cytuno i gyflwyno ein hadolygiad o reolaeth ariannol o flaenllaw i helpu i nodi a mynd i'r afael â gwendidau posibl a allai amharu ar gynnydd.

94 Mae'r Cyngor wedi nodi ei Amcanion Gwella yn glir ac wedi cynnwys manylion cyffredinol, yn gysylltiedig â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig, ar yr adnoddau sydd ar gael, o ran refeniw a chyfalaf, i gefnogi'r gwaith o'u cyflawni. Er gwaethaf setliad grant heriol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15, sy'n cynnwys cynnydd o 4.5 y cant yn y Dreth Gyngor ac arbedion o £7.4 miliwn. Bydd angen arbedion pellach ar gyfer y cyfnod 2015-18. Fel sy'n wir mewn llawer o gynghorau eraill, mae'r Cyngor felly'n wynebu her sylweddol yn y dyfodol o ran ymateb i'r hinsawdd ariannol sy'n fwyfwy llym.

95 Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys yr adolygiad o wariant i Senedd y DU yn 2010 ar 20 Hydref 2010. Ffurfiodd hyn rhan ganolog o ymateb llywodraeth y glymblaid i leihau'r diffyg cenedlaethol, gyda'r bwriad o sicrhau cydbwysedd o ran arian cyhoeddus. Mae polisïau'r Canghellor yn cynrychioli'r gostyngiad mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers y 1920au ac mae'n digwydd ar adeg pan mae newidiadau demograffig a phwysau economaidd sy'n seiliedig ar y dirwasgiad yn cynyddu'r galw am rai gwasanaethau. I gynllunio eu cyllid yn effeithiol, dylai awdurdodau ddadansoddi manylion am dueddiadau ariannol, gwybodaeth feincnodi briodol, sefyllfaoedd posibl a'u heffaith debygol dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol a'r setliad anodd diweddar i lywodraeth leol yn golygu bod cynllunio ariannol da yn hanfodol i gynnal cadernid ariannol.

96 Mae Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd yn archwilio iechyd ariannol awdurdodau, eu hymagwedd at gyllidebau a chyflawni ar arbedion gofynnol, i ddarparu sicrwydd bod awdurdodau yn gadarn yn ariannol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried a oes gan awdurdodau ymagwedd gadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau yn y gyllideb maent yn eu hwynebu i sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol 2014-15 a chyflwyno cyllidebau 2013-14. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwella.

# Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

97 Yn seiliedig ar y casgliadau a amlinellwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn mae Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn bod Cyngor Sir Ynys Môn yn debygol o fodloni gofynion y Mesur o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Serch hynny, mae'r Cyngor yn wynebu heriau penodol yn y flwyddyn i ddod a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn

## Y Cyngor

Cyllideb refeniw gros y Cyngor ar gyfer 2013-14 oedd tua £155.2 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,220 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, cynlluniodd y Cyngor hefyd i wario £26.4 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2013-14, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £939 y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o 4.7 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae 73 y cant o'r tai ym mandiau A i D y dreth gyngor.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 30 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 12 Annibynnol
- 12 Plaid Cymru
- 2 Llafur
- 4 Heb fod yn aelodau o unrhyw blaid

Prif Weithredwr y Cyngor yw Richard Parry Jones. Fe'i cynorthwyir gan Ddirprwy Brif Weithredwr, Bethan Jones, a thri chyfarwyddwr corfforaethol: Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes – Dr Gwynne Jones; Cyfarwyddwr Cymuned – Gwen Carrington; a Chyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy – Arthur Owen.

## Gwybodaeth arall

Yr Aelod Cynulliad dros Ynys Môn yw:

- Rhun ap Iorwerth, Ynys Môn, Plaid Cymru

Yr Aelodau Rhanbarthol yw:

- Llyr Huws Gruffydd, Plaid Cymru
- Mark Isherwood, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Antoinette Sandbach, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelod Seneddol dros Ynys Môn yw:

- Albert Owen, Ynys Môn, Llafur

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk neu cysylltwch â’r Cyngor yn: Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddo

Y Cynghorydd Ieuan Williams
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Annwyl Gynghorydd Williams

## Annwyl Gynghorydd Williams

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 27 Medi 2013

Arweiniodd ymadawiad y rheolwr cyllid ar ddechrau mis Medi at roi pwysau sylweddol ar y tîm cyllid i baratoi drafft terfynol o'r Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â Chod CIPFA.

Nodais gamddatganiad perthnasol o £61.6 miliwn drwy'r gwaith maes a ddigwyddodd o ganlyniad i aelod o'r tîm cyllid yn gwrthdroi taliadau mewnol yn anghywir. Er na chafodd unrhyw effaith ar Gost Net Gwasanaethau, cafodd Incwm a Chostau Gros Gwasanaethau eu gorddatgan yn sylweddol yn y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'r tîm archwilio.

Yn ogystal, nodwyd nifer o wallau amherthnasol o natur debyg lle roedd y croniadau agoriadol wedi'u gwrthdroi yn anghywir, neu lle roedd incwm a gwariant grantiau wedi'u dyblygu mewn camgymeriad. Gellid bod wedi sylwi ar y materion hyn drwy adolygiad manylach wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'n hanfodol bod trefniadau yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl i sicrhau bod gan y tîm ariannol adnoddau digonol a'r sgiliau priodol ar gyfer y dyfodol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Hoffwn dynnu sylw at y meysydd penodol canlynol yn y llythyr hwn:

- mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer y Cyngor yn heriol o hyd ac mae cynllunio ariannol a threfniadau monitro ar waith i nodi'r bwlch cyllido ac i hwyluso'r arbedion sydd eu hangen. Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd eto yn y byrdymor i sicrhau'r arbedion sy'n ofynnol; ac

- roedd 38% o'r ceisiadau am grant a ardystiwyd gan PwC o ran 2011/12 yn destun llythyr amodi (50% yn 2010/11). Cafodd 39% o'r ceisiadau am grantiau eu cyflwyno i'r Cyngor ar ôl y dyddiad terfyn cyflwyno, o gymharu â 10 ar gyfer 2010/11.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn uwch na'r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol oherwydd y gwaith ychwanegol sydd ei angen mewn sawl maes ar gyfer archwilio'r cyfrifon, gan gynnwys y rhwymedigaeth pensiwn, darparu cyflog cyfartal, croniadau a pharatoi drafft terfynol o'r datganiadau ariannol.

Yn gywir

**Lynn Pamment**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei Gynllun Gwella 2013-14 sydd ar gael ar wefan y Cyngor, sef:

| Amcanion Gwella 2012-2013 | Amcanion Gwella 2013-2014 |
|---|---|
| **Gwella Gwasanaethau i Blant**<br>Sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed a cham-drin a bod eu lles, eu hannibyniaeth a'u sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo. | Cynnal a Moderneiddio Gwasanaethau Plant |
| **Adfywio ein Cymunedau**<br>Atal digartrefedd a diwallu anghenion tai ac anghenion cysylltiedig pobl ddigartref. | Gwella ein Darpariaeth Addysg |
| **Gwella Llywodraethu Corfforaethol**<br>Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'n llawn ei addewid i hyrwyddo a diogelu diddordebau'r Ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau. | Trawsnewid Ein Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| **Gwireddu ein Cytundebau Canlyniadau**<br>Sicrhau bod y Cyngor Sir yn alinio ei hun ac yn gweithio mewn partneriaeth tuag at nodau Llywodraeth Cymru. | |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael ar wefan y Cyngor.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD: | 22 GORFFENNAF 2014 |
| TEITL YR ADRODDIAD | ADRODDIAD GWAITH AR ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD 1 EBRILL 2014 – 30 MEHEFIN 2014 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN: | RHEOLYDD ARCHWILIO |
| GWEITHREDU: | D/B |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2014-15 i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2014 ac fe'i derbyniwyd. Cynhyrchwyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, y Swyddog Adran 151 ac yn sgil amryw o gyfarfodydd a chyfathrebiadau gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

**1.2** Mae'r adroddiad isod yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 30 Mehefin 2014 ac yn rhoi crynodeb ar gyfer yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf.

**1.3** Bydd angen adolygiad dilyn-i-fyny ar gyfer yr holl adroddiadau terfynol a dderbyniodd farn 'Sicrwydd Coch'. Bydd yr adolygiad hwnnw yn cynnwys barn archwilio ar y cynnydd a wnaed gan reolwyr o ran gweithredu'r argymhellion lefel Uchel a Chanolig yn yr adroddiad terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad Dilyn-i-Fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

**1.4** Cynhaliwyd un adolygiad yn y cyfnod diwethaf a arweiniodd at farn 'Sicrwydd Coch'. Adolygiad oedd hwn o'r system Gredydwyr ac fe gynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad Dilyn i Fyny yn sgil hynny ac mae canlyniadau'r adolygiad hwnnw wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

**1.5** Mae un adolygiad o'r cyfnod hwn wedi arwain at farn sicrwydd Coch. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â rheoli Staff Asiantaeth. Mae canlyniadau'r adolygiad i'w gweld yn rhan 2.1.8 a bydd crynodeb manylach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a gynhelir ar 22 Gorffennaf 2014.

**1.6** Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae modd gwneud hynny, ond gall hefyd ddefnyddio Adolygiadau System, Adolygiadau Rheolaeth Allweddol, Adolygiad Sefydliad neu Adolygiad Ymgynghorol os gwelir bod y rheini'n fwy priodol.

**1.7** Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, yn gyfrinachol ar gais i'r Rheolwr Archwilio.

## 2. ADRODDIADAU A GYHOEDDWYD ERS YR ADRODDIAD DIWEDDARU DIWETHAF

Rhestrir isod yr adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol a gyhoeddwyd ers yr adroddiad gwaith diwethaf i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â chrynodeb o ganlyniadau pob adolygiad.

### 2.1.1 Credydwyr 2013-14 – Adolygiad Dilyn-i-Fyny

Cynhaliwyd adolygiad o'r system Gredydwyr yn Chwarter 3 2013-14. Canlyniad yr adolygiad hwnnw oedd barn Archwilio Mewnol Sicrwydd Coch. Hwn oedd yr adolygiad cyntaf o'r maes hwn ers gweithredu'r system CIVICA newydd yn Ebrill 2013. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol o'r adolygiad cychwynnol hwn ym mis Tachwedd 2013 ac roedd yn cynnwys 6 o argymhellion categori 'Uchel'; 11 o argymhellion categori 'Canolig' a 6 o argymhellion categori 'Isel'. Cafodd yr holl argymhellion a wnaed yn yr adroddiad cychwynnol ar y system Gredydwyr eu dilyn i fyny fel rhan o'r adolygiad hwn.

Cyfwelwyd aelodau o staff a oedd yn gyfrifol am weithredu'r argymhellion i ddarganfod pa gynnydd a wnaed gyda'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Os oedd hynny'n briodol, cynhaliwyd profion i asesu lefel y gydymffurfiaeth a'r trefniadau rheoli a oedd wedi eu sefydlu.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd barn sicrwydd COCH – AMBR gyda dau o argymhellion categori Uchel; chwech o argymhellion categori CANOLIG a phedwar o argymhellion categori ISEL un ai yn cael eu gweithredu neu heb eu gweithredu ar adeg yr archwiliad dilyn-i-fyny.

Mae rheolwyr wedi pennu dyddiadau gweithredu ar gyfer rhoi sylw i'r argymhellion sydd ar ôl.

### 2.1.2 Y Broses Arbedion Effeithlonrwydd yng Nghyllideb 2014-15

Cynhaliwyd archwiliad o'r broses uchod ar gyfer Cyllideb 2014-2015 fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2013/14. Gofynnwyd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal yr adolygiad i roi sicrwydd ynghylch cadernid yr her a gyflwynwyd i'r cynigion arbedion effeithlonrwydd a wnaed gan y gwasanaethau.

Rhaid pwysleisio mai adolygiad o'r broses ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yng nghyllideb 2014-15 oedd hwn ac nad oedd yn ceisio darparu unrhyw sicrwydd ynghylch pa mor ymarferol fyddai cyflawni unrhyw un o'r cynigion a wnaed. Fodd bynnag, yn ein sylwadau i'r Gwasanaeth Cyllid rydym wedi gwneud sylwadau ar achosion lle roeddem yn ystyried nad oedd tystiolaeth y byddai modd cyflawni'r cynigion. Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion y dylid cael mwy o sicrwydd ynghylch y cynigion hyn.

Rhaid pwysleisio hefyd mai'r gwasanaethau eu hunain sy'n gyfrifol am y cynigion arbedion effeithlonrwydd a'i dyletswydd hwy felly yn y pen draw yw sicrhau bod y cynigion a wneir yn realistig ac yn rhai y gellir eu cyflawni o fewn yr amserlenni a bennwyd. Byddai disgwyl i'r gwasanaethau felly fod wedi sefydlu gweithdrefnau a phrosesau sy'n rhoi sicrwydd digonol i'r Pennaeth Gwasanaeth a/neu'r sawl sy'n dal y gyllideb fod y cynigion yn rhai y mae modd eu cyflawni. Dylid nodi nad oedd unrhyw weithdrefn na phroses o'r fath wedi eu cynnwys yn sgôp yr adolygiad hwn.

**Casgliad yr Adolygiad Ymgynghorol** – Gwelwyd rhai arferion da mewn perthynas â'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer cynigion arbedion effeithlonrwydd

yn 2014-15 ynghyd â thystiolaeth hefyd o heriau i'r gwasanaethau gan gyfrifwyr gwasanaeth o fewn yr Adran Gyllid.

Fodd bynnag, nid oedd cofnod ffurfiol o'r broses ei hun na lefel y dystiolaeth yr oedd rhaid wrthi i gadarnhau y byddai modd cyflawni'r arbedion a pherthnasedd, cywirdeb a chyfanrwydd y cyfrifiadau, y rhagdybiaethau, yr amserlenni a'r rhagamcanion a ddefnyddiwyd wrth benderfynu lefel yr arbedion. O ganlyniad nid oedd tystiolaeth ar gael o fewn yr Adran Gyllid ar adeg yr adolygiad fel sail ar gyfer unrhyw sicrwydd o fedru cyflawni'r arbedion a gynigiwyd.

Mae tystiolaeth bod llawer o waith wedi ei wneud yn y broses herio. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth ar gael i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd bod y cynigion yn realistig ac yn ymarferol ym mhob achos a bod y cyfrifiadau, y rhagdybiaethau, y rhagamcanion a'r amserlenni yn gyflawn, yn gywir ac yn berthnasol ym mhob achos.

Canlyniad yr adolygiad oedd saith o argymhellion cyffredinol ar gyfer gwelliannau y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr mewn Cynllun Gweithredu.

**2.1.3 <u>Budd-dal Tai – 2013-14</u>**

Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau Rheoli Allweddol yn y system Budd-dal Tai fel rhan o gynllun a gymeradwywyd ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol am y flwyddyn 2013/14.

Talwyd oddeutu £10.5m o Fudd-dal Tai yn 2013/14 rhwng 01-04-2013 a 31-03-2014 ar gyfer tenantiaid preifat. Yn yr un cyfnod talwyd £8m o Fudd-dal ar gyfer tenantiaid yr Awdurdod Lleol. Dyfarnwyd o gwmpas £5m dan y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Ar ôl ystyried y materion a nodwyd gall y Cyngor fod yn rhesymol sicr bod y trefniadau rheoli y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt wedi eu dylunio'n addas a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio GWYRDD/AMBR a chytunwyd ar bump o argymhellion categori Canolig a chwech o argymhellion categori Isel gyda rheolwyr.

**2.1.4 <u>Y System Gyflogau – 2013-14</u>**

Cynhaliwyd archwiliad o'r System Gyflogau fel rhan o'r cynllun a gymeradwywyd ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol am y flwyddyn 2013/14. Gwariodd y Cyngor £153,365.51 ar y system gyflogau yn 2013/14.

Y System Gyflogau a ddefnyddir ar hyn o bryd yw 'Resourcelink' gan Northgate. Mae hon yn system integredig ar gyfer Adnoddau Dynol a Chyflogau. Mae gan y Cyngor Dîm mewnol o 5 o staff sy'n ymwneud â swyddogaethau cyflogau. Mae staff yn yr Adain Adnoddau Dynol hefyd yn rhan o'r gwaith cychwynnol gyda dechreuwyr newydd ar y system integredig. Cawsom wybod mai'r drefn fel arfer yw bod staff y Gwasanaeth Cyflogau yn gwneud y trefniadau ar gyfer staff addysgol a staff sy'n gweithio i'r uned ddarparu a bod gwasanaeth Adnoddau Dynol yn delio gyda'r staff canolog sy'n weddill.

Rhoddwyd 264 o ddechreuwyr newydd ar y System Gyflogau a phroseswyd 407 o bobl a adawodd rhwng Ebrill 2013 a Hydref 2013. Mae 3971 o gofnodion byw ar y System Gyflogau ar hyn o bryd.

Casgliadau allweddol yr adolygiad oedd:

- Mae gan yr Uwch Swyddog Cyflogau hawliau gweinyddol sy'n rhoi mynediad iddo i swyddogaethau cyflog a sefydliad.
- Nid oes trefn ar hyn o bryd i'r rheini sy'n dal cyllidebau fedru gwirio, o leiaf bob blwyddyn, fod adolygiad wedi ei wneud o'r strwythur staff a'r graddfeydd tâl er mwyn cadarnhau bod y wybodaeth ar y system AD a Chyflogau yn gyflawn ac yn gywir.
- Nid oedd dyletswyddau mewn perthynas â chreu cofnodion ar gyfer gweithwyr newydd wedi eu gwahanu'n briodol ym mhob achos; mae staff yr uned gyflogau yn creu cofnodiadau ar gyfer gweithwyr newydd os nad yw'r Uned AD eisioes wedi eu creu pan fo taliadau'n cael eu prosesu. Mae'n rhaid i'r Adain Gyflogau sefydlu manylion ar gyfer rhai staff ar ran yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Addysg.
- Mae cyfraniadau pensiwn mewn perthynas â thalebau gofal plant wedi eu tynnu'n anghywir ac nid ydynt wedi eu newid na'u cywiro ers rhoi gwybod iddynt ym mis Tachwedd 2013.
- Ar ôl dilyn i fyny'r argymhellion o'r adroddiad diwethaf ar y System Gyflogau gwelwyd bod gordaliadau dal heb eu hadennill.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd band sicrwydd GWYRDD/AMBR. Cytunwyd ar 6 o argymhellion categori Canolig a phump o argymhellion categori Isel gyda'r rheolwyr.

**2.1.5 Rheoli'r Trysorlys – 2013-14**

Cynhaliwyd archwiliad o'r gwaith Rheoli'r Trysorlys fel rhan o'r cynllun a gymeradwywyd ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol am y flwyddyn 2013/14. Mae'r swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithredu o fewn y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn. Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2014 ar y sefyllfa gyfredol o ran Rheoli'r Trysorlys (ar gyfer chwarter 3).

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio GWYRDD. Cytunwyd ar dri o argymhellion categori Canolig gyda'r Rheolydd.

**2.1.6 TAW -2013-14**

Cynhaliwyd archwiliad o Systemau TAW fel rhan o'r cynllun a gymeradwywyd ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol am y flwyddyn 2013/14. Roedd yr adolygiad hwn yn seiliedig ar ganllawiau TAW gan CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chyrff Tebyg (Mehefin 2013) sy'n darparu arferion gorau ar gyfer cofnodi a chyfrifo TAW gan awdurdodau lleol.

Yn unol ag Adran 33 Deddf TAW 1994, mae gan gyrff penodol, gan gynnwys awdurdodau lleol, hawl i adennill TAW ar gyflenwadau sy'n ymwneud â gweithgareddau nad oes a wnelont ddim â busnes. Yn y flwyddyn ariannol 2012/13 fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn adennill cyfanswm o £9,451,112.91 o TAW.

**Casgliad yr Adolygiad Ymgynghorol** – Ar ôl ystyried y materion a nodwyd gall y Cyngor fod yn sicr bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol. Serch hynny, nodwyd rhai gwendidau y mae angen i'r rheolwyr roi sylw iddynt i sicrhau bod y risg hon yn parhau i gael ei rheoli.

Canlyniad yr adolygiad oedd un argymhelliad categori Canolig ac 11 o argymhellion categori Isel y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr.

### 2.1.7 <u>Y Drefn Gwyno – 2014-15</u>

Cynhaliwyd archwiliad o'r Drefn Gwyno Gorfforaethol fel rhan o'r cynllun a gymeradwywyd ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol am y flwyddyn 2014/15. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Pryderon a Chwynion sy'n seiliedig ar arferion gorau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cymeradwywyd y polisi hwn gan y Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012 a chan y Cyngor ar 5 Mawrth 2013 ac fe'i gweithredwyd o 1 Ebrill 2013. Yn ystod y cyfnod Ebrill 2013 i Fawrth 2014 cofnododd y Cyngor 62 o gwynion.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i gwynion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol na chwynion yn erbyn ysgolion. Mae gweithdrefnau ar wahân ar gyfer y ddau faes hyn. Ni chafodd y gweithdrefnau mewn perthynas â chwynion ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol ac ysgolion eu cynnwys yn yr adolygiad hwn.

Casglodd yr adolygiad fod gweithdrefnau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r polisi o fewn gwasanaethau ac yn gorfforaethol. Roedd y ddau wendid rheoli yn ymwneud â hyfforddi staff mewn perthynas â'r Polisi Cwynion a Phryderon a chynhyrchu adroddiad blynyddol i ddarparu dadansoddiad o batrymau cwyno a gwersi y gellir eu dysgu o'r flwyddyn gynt. Mae'r ddau wendid hyn yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth gyda rheolaethau o fewn y polisi.

O 62 o gwynion ffurfiol a dderbyniwyd ac a broseswyd yn y cyfnod Ebrill 2013 i fis Mawrth 2014 dim ond dau a gyfeiriwyd i'r Ombwdsmon. Mae hynny'n cyfateb i 3.3% o'r holl gwynion a broseswyd ac ystyrir bod hynny'n isel o gymharu â chyfanswm y cyfeiriadau. Mewn perthynas â'r ddwy gŵyn a gyfeiriwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru ni chafwyd bod y Cyngor wedi camweinyddu. Mae'r ffigyrau felly yn rhoi sicrwydd bod y polisi pryderon a chwynion yn cael ei weithredu'n gyson o fewn y gwasanaethau ac yn gorfforaethol a'i fod yn effeithiol.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad hwn oedd barn archwilio GWYRDD. Cytunwyd ar ddau o argymhellion categori Canolig gyda'r rheolwyr.

### 2.1.8 <u>Staff Asiantaeth – 2014-15</u>

Cynhaliwyd adolygiad o'r defnydd o Staff Asiantaeth ar gais y Pwyllgor Archwilio. Yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2014 penderfynodd y Pwyllgor Archwilio: *bod y Pwyllgor Archwilio yn rhoi dadansoddiad i'r Pwyllgor o nifer y staff asiantaeth/contract/hunangyflogedig a gyflogir gan y Cyngor, y rhesymau dros eu cyflogi a'r costau, ynghyd â dulliau eraill o weithredu a ddilynir gan gyrff/sefydliadau eraill.*

Casglodd yr adolygiad bod diffyg ymwybyddiaeth ymysg staff perthnasol o bolisi'r Cyngor ynghylch caffael a monitro staff asiantaeth, ynghyd â diffyg cydymffurfiaeth â'r polisi. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael copi ar wahân o'r adroddiad hwn er gwybodaeth.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad hwn oedd barn archwilio COCH. Cytunwyd ar dri o argymhellion categori Uchel a chwech o argymhellion categori Canolig gyda'r rheolwyr.

### 2.1.9 <u>Adroddiadau Pellach</u>


Yn ôl cyfarwyddwyd gan y Swyddog Adran 151 cynhaliwyd pedwar o adolygiadau manwl yn ystod y cyfnod hwn y tu allan i Gynlluniau Gweithredu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Roedd yr adroddiadau hynny yn ymwneud â:

- Adnewyddu Contract Banc HSBC
- Stociau Sieciau – Llofnodwyr
- Arbedion Effeithlonrwydd 2013-14; a
- Debyd ar Gronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau

Adroddiadau hanesyddol oedd y rhain yn bennaf ac i bwrpas rhoi cyngor. Ni chyflwynwyd unrhyw farn archwilio ffurfiol yn yr adroddiadau hyn.

**2.2 Crynodeb o Ganlyniadau Adroddiadau a Gyhoeddwyd hyd yma** - ers 1 Ebrill 2014 rydym wedi cyhoeddi chwech o adroddiadau terfynol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2013-14; dau o gynllun 2014-15, pedwar adroddiad pellach yn unol â chyfarwyddyd y Swyddog Adran 151 a thri adroddiad cyfeirio. Hyd yma felly, cyhoeddwyd 11 o adroddiadau terfynol yn 2014-15.

Ceir crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd i'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd gyda barn CAG yn y siart gylch isod:




Bydd y siart gylch hon yn cael ei diweddaru'n gronnol ym mhob Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol dilynol a bydd o'r herwydd, yn arwydd o'r farn archwilio am y fframwaith rheoli cyffredinol yr adroddir arno yn Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Archwilio.

## 3 BLAENRAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL

| Teitl yr Adolygiad a Gynlluniwyd | Maes Gwasanaeth | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| Rhenti Tai 2013-14 | Tai | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Digartrefedd | Tai | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Cau'r Cyfrifon – Prosesau | Cyllid | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Oriau Gofal Cartref | GC Oedolion | Dibriffio |
| Logical Access Controls - Compliance | Corfforaethol | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Rheolaeth Ariannol Ysgolion - Cyllidebau | Dysgu Gydol Oes | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Ysgol Pentraeth | Dysgu Gydol Oes | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Ysgol Henblas | Dysgu Gydol Oes | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Rhybuddion Dirwy | Priffyrdd | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Datblygu Chwaraeon | Economaidd | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Ymddiriedolaeth Elusennol – Llywodraethiant ac Ariannol | Cyllid | Cychwyn Gorffennaf 2014 |
| Dilyn-i-fyny – yr Argymhellion Categori Uchel a oedd angen sylw | Corfforaethol | Cychwyn Gorffennaf 2014 |

## 4. CYFEIRIADAU

**4.1** Yn ystod y flwyddyn, rhaid i'r Adain Archwilio Mewnol wneud gwaith ar faterion a ddaw i'r fei yn ystod y gwaith archwilio rhaglenedig neu faterion a ddygir i'w sylw gan Adrannau eraill neu waith y mae Adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r cyfeiriadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol a bydd eraill yn cael eu cofnodi mewn Nodiadau Ffeil (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

**4.2** Mae nifer o Nodiadau Ffeil wedi cael eu cynhyrchu hyd yma yn 2014/15. Nid oes unrhyw ddarn o waith a arweiniodd at gynhyrchu Nodyn Ffeil wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll neu afreoleidd-dra. Roedd un o'r nodiadau ffeil yn ymwneud â chynorthwyo ymchwiliad a oedd yn cael ei gynnal gan Betsi Cadwaladr ac un yn ymwneud â defnydd amhriodol o gyfeirnod Tystysgrif Nwy'r Cyngor.

**4.3** Cynhyrchwyd adroddiad yn dilyn ymgais i dwyllo'r Cyngor trwy lythyr yn gofyn am newid manylion banc cyflenwr cyfredol a'r llythyr hwnnw heb ddod gan y cyflenwr

ei hun. Mae'r mater wedi cae ei gyfeirio at uwch reolwyr a'r Heddlu ac mae rheoliadau yn y maes hwn wedi cael eu cryfhau o ganlyniad. Mae adroddiadau cyfeirio hefyd wedi cael eu cyhoeddi mewn perthynas â chyfeiriadau a gafwyd ynghylch materion Arforol ym Mhorth Amlwch ac amryfal faterion yn ymwneud ag ysgol.

**4.4** Fel y dywedyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Archwilio, mae'r Heddlu wrthi'n ymchwilio i un cyfeiriad o 2012/13. Cafodd y Tîm Archwilio Mewnol ymweliad gan swyddog o'r heddlu ym mis Mehefin 2014 yn dilyn i fyny'r manylion am y cyfeiriad a wnaed. Rhoddir gwybod yn y man i'r Pwyllgor am ganlyniad yr achos hwn.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION

5.1 Mae argymhellion a wnaed ers 01-04-2010 wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion er gwybodaeth y Pwyllgor hwn yn unig.

5.2 Mae'r perfformiad o ran gweithredu ar yr holl argymhellion yn y cyfarfod yn is na'r targed – cofnodwyd bod 44% o'r holl argymhellion 'Uchel' a 'Canolig' wedi cael eu gweithredu. Mae'r perfformiad o ran yr argymhellion ac eithrio'r rhai sy'n berthnasol i Addysg yn 69% (Ffigyrau fel yr oeddynt ar 30-06-14).

5.3 Yn Atodiad A, ceir graff yn dangos manylion yr argymhellion a weithredwyd fesul Gwasanaeth.

## 6. PRYDERON CYFREDOL YR ADAIN ARCHWILIO

6.1 Pryderon yw'r rhain a nodwyd o waith archwilio mewnol blaenorol nad ydynt wedi cael sylw ynghyd â'r rheiny a nodwyd yn ystod y cyfnod hwn.

- **Parhad Busnes** – Mae camau gweithredu a argymhellwyd i gryfhau trefniadau rheoli yn y maes hwn wedi cael eu casglu o nifer o adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd, gan gynnwys Archwilio Mewnol ac maent wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Gwybodaeth Gorfforaethol. Rydym yn deall fod cynnydd ar drefniadau yn cael ei wneud bellach ar lefel Gogledd Cymru.

- **Rheoli Risg** – Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei Fframwaith Rheoli Risg ei hun ac yn sefydlu trefniadau rheoli risg yn gadarn yn y sefydliad. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wrthi'n cael ei datblygu a bydd trefn adrodd reolaidd yn cael ei gweithredu.

- **Rheoli Gwybodaeth** - Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd wedi cynnal adolygiad yn y maes hwn ac wedi nodi problemau a gwendidau rheoli tebyg i'r rheiny a nodwyd gan SAC, PWC a'r Adain Archwilio Mewnol mewn adroddiadau blaenorol. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen i weithredu ar y Cynllun Gweithredu yn deillio o adroddiad y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae nifer o gamau wedi cael eu gweithredu ers adroddiad SCG.

- **Llywodraethiant** - Nodwyd eto yn 2013-14, faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol, er enghraifft, mewn perthynas â chaffael corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio ei system electronig ar gyfer cydymffurfio gyda pholisïau a'u derbyn lle yr oedd defnyddwyr yn cofnodi eu bod wedi darllen a deall y polisïau ac yn cytuno i lynu wrthynt. Heb gofnod o'r fath eu bod wedi eu derbyn, mae'n fwy anodd dangos eu bod wedi cael eu cylchredeg yn

ddigonol i'r staff perthnasol. Cyhoeddwyd adroddiad ynglŷn â'r materion hyn yn 2011-12, fodd bynnag, roedd nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu ar ddiwedd 2013-14.

- **Fframwaith Caffael Corfforaethol** – Cyhoeddwyd adroddiad Archwilio Mewnol ar y Fframweithiau Caffael Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2012 a nodwyd nifer o feysydd lle yr oedd angen cryfhau'r fframwaith. Yn ystod profion, canfuwyd nad oedd mwyafrif y swyddogion y cysylltwyd â nhw ac a oedd wedi cymeradwyo anfonebau am symiau mawr o arian yn gwybod a oedd contract yn ei le ai peidio ac yn y rhan fwyaf o achosion, roeddynt yn awgrymu pwynt cyswllt arall yn eu Gwasanaeth a 'allai' fod yn gwybod. Nododd yr adolygiad mai'r broblem sylfaenol oedd diffyg fframwaith caffael corfforaethol cadarn yn y Cyngor. Er enghraifft, nid oedd rheidrwydd ar Wasanaethau i gofrestru contractau gwerth uchel gyda'r ganolfan gorfforaethol ac o'r herwydd nid oedd unrhyw fodd o nodi lle yr oedd symiau sylweddol o arian yn cael eu gwario heb gontract dan y Rheoliadau Gweithdrefn Contractau.

  Roedd y ffaith fod cymaint o Lofnodwyr Awdurdodedig yn ardystio taliadau uchel heb wybod a oedd contract priodol yn ei le yn unol â'r RhGC, neu, os oedd contract o'r fath yn bodoli, y cyfraddau y dylid eu codi yn ddarganfyddiad sylweddol ynddo ei hun o ran effeithiolrwydd y fframwaith caffael cyfredol.

  Mewn Gwiriad Iechyd a gynhaliwyd gan KPMG Procurement ar gyfer Ynys Môn yn 2014, cadarnhawyd casgliadau'r Adain Archwilio Mewnol ac roedd y gwiriad yn cynnwys adolygiad manylach o wendidau'r trefniadau cyfredol. Mae Bwrdd Prosiect wedi cael y dasg o weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn er mwyn cryfhau'r Fframwaith Caffael Corfforaethol.

  Yn y sefyllfa economaidd sydd ohoni ar hyn o bryd, ystyrir ei bod yn hanfodol bod y fframwaith caffael corfforaethol yn cefnogi'r arbedion effeithlonrwydd sy'n cael eu gwneud ar hyn a lled y Cyngor drwy sicrhau arbedion gwirioneddol o gontractau gwerth uchel newydd neu rai sydd wedi eu hadnewyddu. Mae angen rhoi sylw i'r gwendidau a nodwyd yn yr adolygiadau hyn er mwyn darparu'r gefnogaeth hon.

- **Fframwaith Partneriaethau**- Nid oes gan y Cyngor Fframwaith ffurfiol ar gyfer Partneriaethau er mwyn darparu sicrwydd fod gan yr holl bartneriaethau drefniadau llywodraethiant, rheoli a pherfformiad digonol er mwyn cwrdd â'r amcanion a nodwyd ac er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian mewn perthynas â'r adnoddau ariannol ac adnoddau eraill y mae'r Cyngor wedi eu buddsoddi ynddynt.

  Nid oes gan y Cyngor gofrestr ganolog o bartneriaethau yn manylu ar eu pwrpas, yr adnoddau a fuddsoddwyd, canlyniadau disgwyliedig, cyfrifoldebau neu linellau ar gyfer cyflwyno adroddiadau.

  Nid yw'r trefniadau cyfredol yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol fod manteision y bartneriaeth yn cael eu gwireddu neu fod risgiau negyddol gweithio mewn partneriaeth a nodwyd gan y Comisiwn Archwilio ac eraill heb eu gwireddu o fewn partneriaethau cyfredol y Cyngor.

- **Gweithredu Argymhellion Ysgolion** – Mae problem barhaus mewn perthynas â gweithredu ar argymhellion archwilio mewnol gan ysgolion. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â materion ariannol a llywodraethiant

mewn ysgolion a ddylai fod yn destun pryder i Brifathrawon ac i'r Adran Addysg.

- **Argymhellion Categori Uchel nad ydynt wedi eu Gweithredu** – Mae statws 'heb eu gweithredu' wedi eu cofnodi yn achos argymhellion categori uchel yn y meysydd isod a adolygwyd:
    - **AD MyView 1866.13/14** – Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2013 – Noddwyr yr adroddiad: Rheolydd AD a'r Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau; Mater: diffyg gwahanu dyletswyddau rhwng y sefydliad a'r gyflogres: Statws cyfredol: Mae Cyllid ac AD yn ymgynghori ynghylch gweinyddu systemau a grwpiau mynediad ar system Northgate er mwyn gwahanu mynediad i gofnodiadau sefydliad a mynediad i ddiwygio manylion am y gyflogres.
    - **Caffael Corfforaethol 1825.12/13** – Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2012 – Noddwr yr Adroddiad – y Pennaeth Gwasanaeth Cyllid ar y pryd - Mater: diffyg fframwaith digonol; yr angen i ddiweddaru'r Rheolau Gweithdrefn Contract (RhGC) a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (RhGA); Yr angen i'r holl Lofnodwyr Awdurdodedig gael hyfforddiant ar y RhGC a'r RhGA newydd; Statws cyfredol; - Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig wrthi'n cael eu datblygu.
    - **Parhad Busnes 1812.12/13** – Cyhoeddwyd: Medi 2012: Noddwyr yr Adroddiad: Pennaeth Cynllunio a Rheolwr TGCh; Materion: Diffyg Polisi Adfer yn dilyn Trychineb TGCh yn unol â safonau ISO 27002 ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth a'r angen i ddiffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer Parhad Busnes; Statws cyfredol; Mae Cynllun AT TGCh yn cael ei integreiddio i'r trefniadau Parhad Busnes sy'n datblygu. Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i edrych yn ffurfiol ar Barhad Busnes yn gorfforaethol.
    - **Taliadau Uniongyrchol 1883.13/14**: Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2013 – Noddwr yr Adroddiad; Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaethau Oedolion; Materion: Tystiolaeth o wiriadau CRB ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi fel gofalwyr gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth; Statws cyfredol: Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol, mae gweithdrefnau wedi cael eu diwygio er mwyn sicrhau y ceir gwiriadau CRB lle mae hynny'n briodol.


**RHEOLWR ARCHWILIO**
**14 GORFFENNAF 2014**

**ATODIAD A**

**Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion Uchel a Chanolig (dim yn cynnwys Addysg) sydd wedi cael eu creu ers 01-04-2012**

**Tabl Cynnydd:** % Argymhellion yn y categorïau uchel a chanolig a weithredwyd / na weithredwyd fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 10 o Argymhellion heb gynnwys Addysg, a oedd ar ddiwedd y cyfnod, yn **69%** o'r holl argymhellion a wnaed**.**

Yn ein barn ni felly ac yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tabl Cynnydd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud **'cynnydd digonol'** yn y cyfnod o ran gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn y categori Uchel a Chanolig.



This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **22 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **GWEITHWYR ASIANTAETH – ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **D/B** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd adolygiad o brosesau caffael a defnydd o staff Asiantaeth ar gais y Pwyllgor Archwilio. Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 04 Chwefror 2014: *y Rheolwr Archwilio i ddarparu dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r nifer o staff asiantaeth / contract / hunangyflogedig a gyflogwyd gan y Cyngor, y rheswm am eu cyflogi a chostau hynny ynghyd â dulliau eraill yr oedd sefydliadau / cyrff eraill yn eu defnyddio.*

1.2 Roedd yr adolygiad a wnaed yn seiliedig ar y cyfansymiau wedi'u codio oedd i'w gweld ar y ledjer ac a oedd yn ymwneud â staff o'r fath am 2013-14, ac ar gofnodiadau staff o'r fath oedd yn cael eu cadw gan y Gwasanaethau.

1.3 Ers 10 Mawrth 2014, mae'r Cyngor wedi comisiynu Matrics SCM i gefnogi'r gwaith o gaffael gwasanaethau gweithwyr asiantaeth. Cwmni gwasanaethau caffael yw Matrics SCM, gyda dros 7 mlynedd o brofiad mewn caffael staff o'r fath yn y sector cyhoeddus.

## 2. SGÔP

2.1 Roedd yr adolygiad wedi'i gyfyngu i gostau asiantaeth fel yr oeddynt wedi eu cofnodi ar gôd manylion A0500 ar ledjer y Cyngor am 2013-14 (sydd yn cynnwys staff asiantaeth, contractwyr a staff hunangyflogedig). Nod yr adolygiad oedd asesu graddfa'r defnydd o staff asiantaeth, contractwyr a staff hunangyflogedig a rhesymau dros eu defnyddio a chostau'r defnydd hwnnw.

Roedd yr adolygiad hefyd yn rhoi ystyriaeth i gydymffurfiaeth y Gwasanaethau gyda'r polisïau presennol yn y maes hwn gan gynnwys y cofnodiadau a gedwir yn y Gwasanaethau a monitro'r defnydd o staff o'r fath.

Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys y trefniadau i ddefnyddio Matrics SCM i gaffael staff asiantaeth yn y Cyngor.

Nid yw ein gwaith yn darparu unrhyw sicrwydd yn erbyn camgymeriadau o bwys, colled na thwyll nac yn darparu sicrwydd cyfan gwbl nad yw camgymeriadau o bwys neu dwyll yn bodoli.

## 3. CEFNDIR

3.1 **Polisi a Rheoliad – G**welwyd bod Polisi Gweithwyr Asiantaeth Cyngor Sir Ynys Môn (dyddiedig Awst 2011 ac a ddiweddarwyd Mawrth 2014 a Mehefin 2014) wedi ei gyhoeddi ar wefan mewnrwyd y Cyngor "MONITOR" ac mae felly ar gael i'r holl staff sydd â mynediad i'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, mae ymholiadau a wnaed gyda staff sydd â rhan yn y broses gaffael ar gyfer gwasanaethau gweithwyr asiantaeth yn dangos nad oedd y staff perthnasol yn ymwybodol o fodolaeth polisi'r Cyngor ar Weithwyr Asiantaeth.

3.2 **Costau ar y ledjer -** Cyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth am y flwyddyn ariannol 2013/2014 fel y dangosir ar gost manylion A0500 ar y ledjer ariannol oedd £1,023,398. Mae dadansoddiad o'r gwariant yn ôl adain / gwasanaeth fel a ganlyn:-

- Datblygu Cynaliadwy - £281,722
- TGCh - £19,503
- Cyllid - £383,931
- Arfarnu Swyddi - £43,511
- Personnel - £735
- Prosiectau Corfforaethol a Gwybodaeth - £12,522
- Talnet - £372
- Gwasanaethau Cymdeithasol - £239,282
- Gweithio Allweddol Trawsnewid - £7,273
- Rheoli Stad - £34,547.

Yn ystod trafodaethau gyda staff ac archwilio anfonebau a dalwyd fe ymddengys mewn rhai achosion bod rhai costau wedi eu gosod yn erbyn côd ledger Staff Asiantaeth A0500 mewn camgymeriad. Oherwydd hynny, ni all yr archwilydd roi sicrwydd pendant bod y ffigyrau a gafwyd o'r ledjer ariannol ac a ddyfynnir uchod yn rhai y gellir dibynnu arnynt i benderfynu cywirdeb costau staff asiantaeth. Ym marn yr Archwilydd, byddai'n fwy priodol i'r costau a nodwyd fel rhai wedi'u codio'n anghywir gael eu dyrannu i'r côd ledjer Ymgynghoriaeth D0423.

3.3 **Ymgynghorwyr** - Roedd cyfanswm y gwariant ar wasanaethau Ymgynghori am y flwyddyn ariannol 2013/2014 fel y caiff ei ddangos yn erbyn côd manylion DO423 ar y ledjer ariannol yn £3,866,759. Mae'r dadansoddiad o'r gwariant yn ôl adain/gwasanaeth fel a ganlyn:-

- Dysgu Gydol Oes - £1,485,871
- Datblygu Cynaliadwy - £1,323,757
- Adnoddau - £147,089
- Prif Weithredwr - £461,993

- Cymuned - £165,663
- Tai - £282,386.

Nid yw costau yn ymwneud â chontractwyr a staff hunangyflogedig a gyflogir gan y Cyngor (oherwydd natur wahanol y gwasanaethau y maent yn eu darparu) wedi'u dynodi i unrhyw gôd penodol yn y ledjer ariannol ac felly nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth ystadegol ystyrlon mewn perthynas â gwariant.

## 4 CASGLIADAU'R ADOLYGIAD

Er mwyn gallu penderfynu ar lefel yr ymwybyddiaeth o Bolisi a chydymffurfiaeth gyda'r rheolau mewnol ynddo, fe aethom i ymweld â nifer o'r Gwasanaethau oedd yn ymddangos ar y ledjer fel rhai oedd yn defnyddio staff asiantaeth. Dyma brif gasgliadau'r adolygiad.

4.1 Nid yw staff perthnasol yn ymwybodol o fodolaeth Polisi Gweithwyr Asiantaeth CSYM ac felly nid ydynt yn cydymffurfio â'r Polisi.

4.2 Nid yw costau staff Asiantaeth a ddangosir ar ledjer cyffredinol y Cyngor yn hollol ddibynadwy i bwrpasau adrodd yn ôl oherwydd eu bod yn cynnwys mathau eraill o weithiwr / gwasanaethau (e.e. ymgynghorwyr).

4.3 Nid yw cofnodion y Gwasanaethau mewn perthynas â staff asiantaeth yn cael eu cadw ym mhob un o'r Gwasanaethau ac nid ydynt yn cael eu cadw i safon ddigonol i alluogi dadansoddiad cywir o'r defnydd llawn a chostau staff asiantaeth yn y Cyngor a pham y cawsant eu cyflogi, ar ba gyfraddau, ac am ba gyfnod.

4.4 Gwelwyd bod y gwaith o fonitro hyd contractau yn y Gwasanaethau yn annigonol ac nid oedd goblygiadau Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Mae hyn yn cynyddu'r risg bod staff o'r fath yn parhau i gael eu cyflogi pan mae'r angen gweithredol am eu cyflogi wedi dod i ben neu lle byddai'n fwy priodol mynd ati i gyflogi staff amser llawn.

4.5 Drwy ddefnyddio sampl o weithwyr asiantaeth, fe welwyd nad oeddent wedi eu caffael yn unol â Pholisi Gweithwyr Asiantaeth CSYM yn yr ystyr nad oedd dewisiadau eraill ar wahân i'w caffael wedi cael eu trafod gyda'r Swyddog Adnoddau Dynol perthnasol cyn yr apwyntiad. Yn dilyn diweddaru'r polisi ym Mehefin 2014, rhaid i wasanaethau yn awr gwblhau Atodiad 1 - Y RHESWM DROS LOGI GWEITHIWR ASIANTAETH a'i dychwelyd i AD cyn bod gweithwyr asiantaeth yn cael eu cyflogi er mwyn cadarnhau bod datrysiadau posibl eraill wedi eu hystyried.

4.6 Nid oedd Gwasanaethau wedi cydymffurfio ym mhob achos gyda'r Rheolau Gweithdrefn Contract pan yn cyflogi gweithwyr asiantaeth.

4.7 Ni all y gwasanaeth caffael Matrics SCM mewn rhai achosion ddarparu gweithwyr asiantaeth gyda'r cymwyseddau angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau sydd eu hangen. Mae hyn yn golygu bod nifer o staff asiantaeth wedi cael eu caffael drwy ddulliau eraill ers Mawrth 2014.

4.8 Mae rheolaeth fewnol ar y broses o gaffael staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth wedi ei ddatganoli i Wasanaethau yn

hytrach nag i Adnoddau Dynol yn ganolig.  Yn ymarferol, mae hyn wedi arwain at anwybodaeth eang mewn perthynas â'r polisi corfforaethol ac at ddiffyg cydymffurfiaeth ar raddfa fawr gyda pholisi corfforaethol a ddyluniwyd i sicrhau na fydd staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth ond yn cael eu cyflogi lle bo'r holl opsiynau eraill wedi eu hymchwilio a bod yr holl gontractau o'r fath yn cael eu monitro'n agos ac yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol a bod y Cyngor yn parhau i elwa o'r trefniadau hyn.

# 5 ARGYMHELLION A CHYNLLUN GWEITHREDU

| Cyf | Argymhellion | Categori | Ymateb Rheolaethol | Gan Bwy a Phryd |
|---|---|---|---|---|
| 5.1 (a) | Dylid gwneud staff sydd â rhan yn y broses o gaffael gwasanaethau gweithwyr asiantaeth yn ymwybodol o bolisi'r Cyngor ar Weithwyr Asiantaeth. | Uchel | Gofynnir i Benaethiaid Gwasanaeth ddod a'r Polisi i sylw'r staff perthnasol yn eu Gwasanaeth. | Rheolwr Archwilio drwy gyfarfod ac e-bostio Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>31 Gorffennaf 2014 |
| 5.1 (b) | Dylid gofyn i staff gadarnhau drwy lofnodi eu bod wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth y Polisi. | Canolig | Atgoffa Penaethiaid Gwasanaeth o'r angen i gadw cofnodiadau o ddatganiadau gweithwyr o fod wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth y polisi. | Rheolwr Archwilio drwy gyfarfod ac e-bostio Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>31 Gorffennaf 2014 |
| 5.2 | Dylid gofyn i Wasanaethau restru'r cyfan o'u staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth cyfredol gyda manylion a natur y gwaith, yr asiantaeth sy'n eu cyflenwi, pam fod eu hangen, dyddiad cychwyn, dyddiad gorffen, cyfradd tâl a chostau rhagamcanedig ac ati. | Uchel | Gofynnir i Benaethiaid Gwasanaeth ddweud wrth eu gweithwyr perthnasol i gadw cofnodiadau digon manwl am yr holl staff asiantaeth, hunangyflogedig a chontractwyr o fewn eu Gwasanaeth. | Rheolwr Archwilio drwy gyfarfod ac e-bostio Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>31 Gorffennaf 2014 |
| 5.3 | Rhaid i Wasanaethau adolygu eu holl staff asiantaeth gyfredol, staff contract, hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod eu hangen. | Uchel | Gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod y gweithwyr perthnasol yn adolygu contractau'r holl staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth er mwyn sicrhau bod angen pob un ohonynt o hyd. | Rheolwr Archwilio drwy gyfarfod ac e-bostio Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>31 Gorffennaf 2014 |
| 5.4 | Dylai costau staff ymgynghoriaeth a staff asiantaeth gael eu codio'n gywir yn y ledjer ariannol er mwyn sicrhau cywirdeb y ledjer ariannol a'r data yr adroddir arno. | Canolig | Gofynnir i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod gweithwyr perthnasol yn adolygu'r cod ar gyfer yr holl staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth er mwyn sicrhau bod y gwariant yn cael ei ddangos yn gywir ar y llinell gyllidebol berthnasol.<br><br>Cais i'r Rheolwr Cyfrifeg ofyn i'r Cyfrifwyr Gwasanaeth adolygu unrhyw gyfeiriadau CIVICA a gyn-godiwyd am godau yn ymwneud â staff asiantaeth, contract hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth. | Rheolwr Archwilio drwy gyfarfod ac e-bostio Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>31 Gorffennaf 2014 |
| 5.5 | Lleoliadau gweithwyr asiantaeth i'w monitro a'u hadolygu yn dilyn cyfnod o 10 wythnos er mwyn cydymffurfio â Pholisi Gweithwyr Asiantaeth y Cyngor ac i gymryd cyfrif o | Canolig | Cais i Benaethiaid Gwasanaeth ddweud wrth weithwyr perthnasol am fonitro ac adolygu'r holl drefniadau ar gyfer staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth yn dilyn cyfnod o 10 wythnos er | Rheolwr Archwilio drwy gyfarfod ac e-bostio Penaethiaid Gwasanaeth. |

| Cyf | Argymhellion | Categori | Ymateb Rheolaethol | Gan Bwy a Phryd |
|---|---|---|---|---|
| | Reoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010. | | mwyn cydymffurfio â Pholisi Gweithwyr Asiantaeth y Cyngor ac er mwyn rhoi sylw i Reoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010.. | 31 Gorffennaf 2014 |
| 5.6 | Dylai unrhyw ddefnydd newydd o weithwyr asiantaeth fod yn unol â Pholisi Gweithwyr Asiantaeth CSYM gyda dewisiadau eraill i'w defnyddio i'w trafod gyda Swyddogion AD.<br><br>Mae'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth diwygiedig yn awr yn gofyn am i Atodiad 1 - RHESWM DROS GYFLOGI GWEITHWYR ASIANTAETH gael ei gwblhau gan Wasanaethau a'u dychwelyd i AD cyn bod unrhyw weithwyr asiantaeth yn cael eu cyflogi. | Canolig | Cais i Benaethiaid Gwasanaeth ddweud wrth eu gweithwyr perthnasol am gydymffurfio gyda'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth newydd o ran yr angen i gwblhau'r ffurflen yn Atodiad A a'i anfon ymlaen i AD cyn cyflogi unrhyw staff asiantaeth contract hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth. | Rheolwr Archwilio drwy gyfarfod ac e-bostio Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>31 Gorffennaf 2014 |
| 5.7 | Dylai'r broses o gaffael gweithwyr asiantaeth fod yn ddarostyngedig i Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor pan na wneir hynny drwy Matrics SCM. | Canolig | Cais i Benaethiaid Gwasanaeth atgoffa gweithwyr perthnasol o'r angen i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor pan yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd caffael yn cynnwys y rhai sy'n berthnasol i gyflogi unrhyw staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth. | Rheolwr Archwilio drwy gyfarfod ac e-bostio Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>31 Gorffennaf 2014 |
| 5.8 | O ystyried bod diystyru eang a diffyg cydymffurfio gyda pholisi corfforaethol, dylai uwch reolwyr adolygu a ddylai'r rheolaeth fewnol mewn perthynas â chaffael staff asiantaeth contract hunangyflogedig ac ymgynghoriaeth barhau o fewn Gwasanaethau unigol neu gael ei ddychwelyd i'r canol corfforaethol. | Uchel | Y Rheolwr Archwilio i gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn â dychwelyd rheolaeth o unrhyw gaffael o'r fath yn ôl i'r canol corfforaethol. | Rheolwr Archwilio drwy'r Uwch Dim Arweinyddiaeth.<br><br>31 Gorffennaf 2014 |

______________DIWEDD YR ADRODDIAD______________

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***(Teitl yr Adroddiad/Title of Report)***

**Contract Rheoli Archwilio Mewnol/**
**Internal Audit Management Contract**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972<br><br>[un neu fwy/one or more of 12,12,14,15,16,17,18,18A,18B,18C] | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd i'r cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
| Mae'r mater yn ymwneud â gwariant cyhoeddus<br><br>The matter concerns public expenditure | Mae'r mater yn ymwneud â thelerau dyfarnu contract a allai fod yn niweidiol i fuddiannau masnachol yr awdurdod neu gontractwr arfaethedig petai'r telerau'n dod yn hysbys i gwmnïau a fedrai gystadlu<br><br>The matter concerns the terms on which a contract may be awarded and may harm the commercial interests of the authority or a proposed contractor if the terms were to be made known to potential competitors. |
| **Argymhelliad:** Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br>**Recommendation:** The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank